


Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Datganiadau Ariannol



Cynnwys

Manylion Gweinyddol	3-5
Adroddiad Strategol.....	6-13
Adroddiad y Bwrdd	14-18
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Aelodau	19-21
Datganiad Incwm Cynhwysfawr	22
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	23
Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	24
Datganiad o Lif Arian	25
Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol.....	26-55

Manylion Gweinyddol

Aelodau Bwrdd

Aelodau Bwrdd Annibynnol: Nicola Evans (Cadeirydd)
John Chown (Dirprwy Gadeirydd)
David Lewis – ymddiswyddodd 1 Mehefin 2017
Stephanie Howarth
Carol James
Marc Fury
Elizabeth Lendering
Rachel Honey-Jones
Jonathan Tumelty – penodwyd 12 Hydref 2017

Swyddogion Gweithredol: Michael Owen (Prif Weithredwr)
Lorraine Oates (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau)
Victoria Slade (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)
Paul Allen (Cyfarwyddwr Rheoli Asedau)
– ymddiswyddodd 31 Gorffennaf 2017

Corff Democrataidd

Aelodau Tenant: Frances Bevan (Cadeirydd) – ailbenodwyd 21 Medi 2017
Kevin Eddy – ymddiswyddodd 15 Mai 2017
Tracey Powell - ailbenodwyd 21 Medi 2017
Marlene Burns - ailbenodwyd 21 Medi 2017
Kim Ford
Graham Walmsley – ymddiswyddodd 11 Ionawr 2018
Gaynor Bradley
Joan Marshall
Val Lloyd
Lyndon Humphries – ymddiswyddodd 13 Gorffennaf 2017
Nigel Phillips-Gunter
Annette Walters – penodwyd 21 Medi 2017,
ymddiswyddodd 11 Ionawr 2018
Vivian Evans – penodwyd 21 Medi 2017

Manylion Gweinyddol (parhad)

Aelodau sy'n Weithwyr: Natalie Ryan (Dirprwy Gadeirydd)
Mansell Mason
Ceri Price
Stephen Puddy
Robert Davenport
Chris Cooksey – ymddiswyddodd 13 Gorffennaf 2017
Kevin Clifford
Lisa James – penodwyd 21 Medi 2017,
ymddiswyddodd 16 Mawrth 2018
Alex Barlett – penodwyd 21 Medi 2017

Aelodau Cyngor: Bill Smith – ymddiswyddodd 30 Mehefin 2017
Julian Pike
Tanya Skinner – penodwyd 30 Mehefin 2017

Swyddfa Gofrestredig: Tŷ Brychan
22 Heol Lansbury
Gellideg
Merthyr Tudful
CF48 1HA

Swyddfa Ardal: Canolfan Johnny Owen
Clos Forsythia
Merthyr Tudful
CF47 9DS

Archwilydd Annibynnol: Mazars LLP
Chartered Accountants
45 Church Street
Birmingham
B3 2RT

Archwilwyr Mewnol: Barcud Shared Services
O'r Cymoedd i'r Arfordir Cyf
Parc Busnes Tremains
Heol Tremains
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1TZ

Manylion Gweinyddol (parhad)

Cyfreithwyr:	Trowers and Hamlins LLP Sceptre Court 40 Tower Hill London EC3N 4DX
Bancwyr:	National Westminster Bank Plc Cangen Blaenau'r Cymoedd 122 Stryd Fawr Merthyr Tudful CF47 8BN
Cyllidwyr:	The Royal Bank of Scotland plc Global Banking and Markets Housing Finance 9th Floor 250 Bishopsgate London EC2M 4AA Cymdeithas Adeiladu'r Principality Blwch Post 89 Adeiladau'r Principality Heol y Frenhines Caerdydd CF10 1UA

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Rhif cofrestredig 30532 R. Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Rhif cofrestredig L150

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno ei Adroddiad Strategol ar faterion Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM), ynghyd â'r Datganiadau Ariannol ac Adroddiad yr Archwilydd, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Statws Cyfreithiol

Sefydlir a chofrestrir CCM o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Mae CCM wedi mabwysiadu rheolau elusennol. Sefydliad cydfuddiannol dielw yw CCM a weinyddir gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol.

Prif weithgareddau ac amcanion

Mae CCM yn berchen ar 4,131 o gartrefi rhent, gan gynnwys 206 o unedau llety gwarchod, yn ogystal â'u rheoli a'u cynnal a chadw, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae CCM hefyd yn berchen ar 627 o garejys, 39 o unedau manwerthu, bloc o 12 o fflatiau tai cydweithredol sy'n cael eu prydlesu i Gydweithfa Dai Taf Fechan Cyf a 283 o eiddo prydlesol.

Mabwysiadwyd ein Strategaeth Gorfforaethol 'Yfory' yn 2016/17. I ni, bydd Yfory yn dod â:

- Balchder yn y cymunedau rydym yn byw ynddynt
- Balchder yn y sefydliad rydym yn berchen arno ac yn gweithio iddo
- Mwy o gyfleoedd i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb

I sicrhau y gellir cyflawni Yfory, mae angen i ni aros yn ariannol gryf.

Ein hamcanion allweddol yw:

Cymunedau

- Rydym am wella'r holl ardaloedd gwyrdd agored.
- Rydym am i'n holl gartrefi fod yn ddiogel, yn effeithlon o ran ynni ac edrych yn dda o'r tu mewn a'r tu allan.
- Byddwn yn parhau fel y buddsoddwr angor a byddwn yn annog mewnfuddsoddi.
- Rydym yn dymuno cynnig y cyfleoedd gorau i'n cymunedau.
- Rydym yn dymuno i bob aelod o'n cymuned deimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi, eu bod yn ddiogel a'u bod wedi'u cefnogi.
- Rydym yn dymuno darparu datrysiad tai ar gyfer pobl ifanc.
- Rydym yn dymuno adeiladu'r math o dai sydd eu hangen ar ein cymuned.

Sefydliad

- Rydym yn gydfuddiannaeth a byddwn yn cydweithio i gyflawni ein nodau.
- Byddwn yn gweithredu yn ôl egwyddorion y gydfuddiannaeth.
- Byddwn yn gweithredu'n ddemocrataidd a byddwn yn atebol i'n haelodau.
- Bydd gennym weithlu sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein haelodau.
- Byddwn yn defnyddio technoleg i adeiladu gwasanaethau gwell a pherthnasau cryfach.
- Byddwn yn parhau fel cyflogwr mawr yn y Fwrdeistref gan osod y safonau uchaf ac annog eraill i'w mabwysiadu.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Cyfrifoldeb

- Rydym yn dymuno bod y gorau.
- Rydym yn dymuno rhoi cymorth a gwybodaeth i'n haelodau er mwyn eu grymuso.
- Rydym yn dymuno rhannu sgiliau a dysgu rhwng aelodau.
- Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb dros gyfathrebu'n effeithiol gan bob amser geisio sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein tenantiaid.
- Byddwn yn cefnogi eraill i gyflawni eu potensial llawn trwy ddarparu grantiau a chymorth.

Perfformiad Ariannol

Paratowyd datganiadau ariannol 2017/18 o dan FRS102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwysadwy yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ('FRS102') a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Tai – SORP Tai 2014, Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig ('SORP 2014') a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Datganiad Incwm Cynhwysfawr

Y canlyniad ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018 oedd gwarged gweithredol o £2.931 miliwn, sef gostyngiad o £0.298 miliwn. Gwelwyd gostyngiad yn ein helw gweithredol o 18% i 15%, a chynyddodd ein trosiant o £0.585 miliwn i £19.022 miliwn (3%) a phrofwyd cynnydd o 6% mewn gwariant gweithredol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Incwm rhenti yw'r ffrwd incwm fwyaf gan gynrychioli 90% o'r trosiant ac mae'r cynnydd yn yr incwm rhenti yn adlewyrchu'r cynnydd cytûn mewn rhenti o 2.5% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd cynnydd mewn incwm o werthu eiddo Hawl i Brynu yn ystod y flwyddyn, gyda 21 o werthiannau yn ystod 2017/18 o gymharu ag 14 y flwyddyn flaenorol.

Dyledion Drwg a Cholled ar Eiddo Gwag

Roedd canran y dyledion drwg a'r golled ar eiddo gwag yn y rhent gros derbyniadwy wedi aros ar 1.7% yn 2017/18. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn eiddo gwag ac wedi ailosod 17 eiddo ychwanegol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd colledion ar eiddo gwag yn 2017/18 wedi cynyddu o £21,000 o gymharu â 2016/17. Nifer yr eiddo gwag fel ag yr oedd 31 Mawrth 2018 oedd 31.

Ôl-ddyledion Rhent

Roedd y cronïad o ôl-ddyledion rhent (cyfredol a blaenorol) wedi cynyddu o £78,000, o £626,000 ar 1 Ebrill 2017 i £704,000 ar 31 Mawrth 2018. Roedd ôl-ddyledion cyfredol wedi cynyddu o £73,000, o £423,000 ar 1 Ebrill 2017 i £496,000 ar 31 Mawrth 2018. Roedd ôl-ddyledion cyn-denantiaid wedi cynyddu £5,000 o £203,000 ar 1 Ebrill 2017 i £208,000 ar 31 Mawrth 2018, fodd bynnag mae'r ddarpariaeth dyledion drwg yn darparu ar gyfer 100% o'r ddyled hon wrth iddi godi.

Asedau Sefydlog

Llyfrwerth net ein stoc dai oedd £57.219 miliwn ar 31 Mawrth 2018. Roeddem wedi buddsoddi £5.321 miliwn mewn gwelliannau cyfalaf yn ystod y flwyddyn ac roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan daliadau am ddibrisiant o £3.355 miliwn. Defnyddiwyd gweddillion arian parod mewnol ynghyd ag incwm grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Cafwyd lleihad mewn gwerth ar asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2018 i ostwng gwerth un eiddo a fydd yn cael ei ddymchwel yn ystod 2018/19. Mae lleihad mewn gwerth ar ddodrefn swyddfa hefyd wedi'i wneud o ran eitemau o ddodrefn yn ein safle swyddfa lloeren, na fydd mo'u hangen, wedi i ni symud i'n prif swyddfa newydd.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Daeth y cyfanswm incwm grant o Gyllid Llenwi Bwlch Gwaddol sef £2.9 miliwn, a £0.349 miliwn gan arian Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer datblygu 3 eiddo newydd yn Nheras Haydn, a gwblhawyd yn 2016/17 a 3 eiddo yn Stryd Thomas. Mae'r £0.125 miliwn sy'n weddill o grant cyfalaf i'w dderbyn ar gyfer datblygiad Stryd Thomas dros y 30 mlynedd nesaf o dan Grant Cyllid Tai 2 newydd Llywodraeth Cymru.

Mae gwerthusiad annibynnol o'r stoc dai a gynhaliwyd gan Savills ar sail Gwerth y Defnydd Presennol gan gynnwys 2 flynedd o Gyllid Llenwi Bwlch Gwaddol yn dangos bod y gwerth ar 31 Mawrth 2018 wedi cynyddu i £89.940 miliwn.

Gwerth ein heiddo buddsoddi oedd £0.897 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Mae gwerthusiad annibynnol o'r eiddo hyn, a gynhaliwyd gan Savills, yn dangos bod y gwerth ar 31 Mawrth 2018 wedi gostwng ychydig i £0.878 miliwn.

Benthyciadau

Ni chodwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn oddi wrth ein benthycwyr (RBS a Principality). Balans ein benthyciadau ar 31 Mawrth 2018 oedd £24 miliwn. O hynny, roedd £20 miliwn ar gyfraddau llog sefydlog a £4 miliwn ar gyfraddau amrywiadwy. Cafwyd cynnydd bach o 0.4% i £1.872 miliwn, yn y gyfradd log sy'n daladwy ar ein benthyciadau.

Balans ein benthyciad a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystod 2014/15 i ariannu gwaith adnewyddu Tŷ Taf Fechan a chreu Cydweithfa Dai newydd oedd £0.449 miliwn ar 31 Mawrth 2018.

Asedau'r Gronfa Bensiwn

Mae asedau'r gronfa pensiwn wedi'u seilio ar brisiad yr Actiwari ar 31 Mawrth 2018. Mae'r fantolen yn dangos bod gwerth asedau'r gronfa pensiwn wedi gostwng £0.22 miliwn

i £3.545 miliwn. Cyfradd gyfrannu'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn yn 2017/18 oedd 6.4%, ac mae'r prisiad tair blynedd diweddaraf ar 31 Mawrth 2016 wedi pennu y bydd ein cyfraddau cyfrannu'n cynyddu i 8.5% yn ystod 2018/19, a 10.7% yn 2019/20.

Asedau Net

Y sefyllfa gyffredinol o ran asedau net ar 31 Mawrth 2018 yw £15.754 miliwn, o'i gymharu â £12.979 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn wedi'i achosi'n bennaf gan y cynnydd yng ngwerth eiddo tai o ganlyniad i'r rhaglen fuddsoddi fawr ac adeiladu ein prif swyddfa newydd. Yn 2017/18 y cwblhawyd ein system CRM newydd hefyd, sy'n golygu y gallwn ganolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid.

CCM: Datblygiadau'r Dyfodol

Yn 2018/19 y cwblheir ein prif swyddfa newydd, gan ddod â'r holl weithwyr i un lleoliad. Bydd nifer o ddatblygiadau newydd eraill yn cael eu cwblhau yn 2018/19, gan gynnwys y 2 gartref modiwlaid a gynlluniwyd ar gyfer tenantiaid tai dan 35 oed, a 3 eiddo yn Stryd Thomas. Mae gennym hefyd gynlluniau ar gyfer datblygu 10 eiddo arall yn y fwrdeistref yn ystod 2018/19.

Datganiad Gwerth am Arian

Mae CCM yn cyhoeddi Datganiad Gwerth am Arian yn flynyddol. Mae'r Corff Democrataidd yn arwain ar ein Strategaeth Gwerth am Arian (Yfory Cryf) ac y mae wedi cynllunio Cerdyn Sgorio Cytbwys i werthuso'r Gwerth am Arian a gynhyrchwyd yn 2017/18. Mae ein Haelodau hefyd wedi penderfynu ar 7 Rheol Aur sy'n sicrhau atebolrwydd i'n haelodau ac yn rhoi'r wybodaeth iddynt am weithgareddau y maent yn eu gwerthfawrogi. Mae'r Corff Democrataidd wedi cymeradwyo Datganiad Gwerth am Arian 2017/18 ar ran yr Aelodau gan ddod i'r casgliad fod CCM wedi darparu Gwerth am Arian yn ystod 2017/18.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) 2017/18

Adroddodd Cartrefi Cymoedd Merthyr ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2017/18.

DPA	Targed 17/18	Gwir 17/18	Gwir 16/17
Ôl-ddyledion Rhent Tenantiaid Cyfredol	2.50%	2.78%	2.45%
Canran Colledion Rhent oherwydd Cartrefi Gwag	1.50%	0.98%	0.89%
Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau argyfwng mewn dyddiau	0.5	0.17	0.18
Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau brys mewn dyddiau	3	2.02	2.21
Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau arferol mewn dyddiau	28	30.98	51.24
Canran yr eiddo sydd â Chofnod Diogelwch Nwy y Landlord Dilys	100%	100%	100%

Ôl-ddyledion Rhent ar gyfer 2017/18

Mae'r newidiadau mewn diwygio lles wedi parhau i effeithio ar allu tenantiaid i dalu eu rhent. Er ein bod wedi buddsoddi mewn darparu cymorth i denantiaid, mae ein perfformiad casglu rhent wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd ôl-ddyledion yn ymwneud â hawlwyd Credyd Cynhwysol yn cyfrif am oddeutu 16% o'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent cyfredol. Wrth i gyflymder cyflwyno Credyd Cynhwysol gynyddu, byddwn yn dod o dan bwysau pellach i gasglu rhenti.

Canran Colledion Rhent oherwydd Cartrefi Gwag

Mae colli rhent o eiddo gwag wedi cynyddu ychydig o 0.89% i 0.98% flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond roedd o fewn y targed ar gyfer y flwyddyn. Roedd niferoedd eiddo gwag diwedd y flwyddyn yn 31 yn unig, llai na 1% o'n heiddo. Roedd yr amseroedd ar gyfartaledd i ailosod eiddo hefyd wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn, o 42.52 diwrnod i 41.59 diwrnod.

Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau argyfwng

Cwblhawyd 99.86% o'r holl atgyweiriadau argyfwng a chyfartaledd yr amser a gymerwyd gennym oedd 0.17 diwrnod. Mae hyn ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol ac mae'n cynrychioli ein perfformiad gorau hyd yn hyn.

Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau brys

Fe wnaethom gyflawni 99.85% o dasgau a gynhaliwyd o fewn amser targed, ar gyfartaledd o 2.02 diwrnod yn 2017/18, o'i gymharu â 99.16% o dasgau ar gyfartaledd o 2.21 diwrnod yn 2016/17. Mae'r canlyniad hwn yn galonogol ac yn dangos perfformiad sy'n gwella bob blwyddyn.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Amser ar gyfartaledd i gyflawni atgyweiriadau arferol

Amharwyd ar y DPA hwn trwy gynnwys gwaith a gynlluniwyd yn 2016/17. Addaswyd hyn yn 2017/18 ac mae perfformiad yn dangos gwelliant gyda 99.41% o dasgau wedi'u cwblhau ar gyfartaledd amser o 30.98 diwrnod. Rydym nawr yn fwy unol â chyfartaledd y sector a'n targed o 28 diwrnod.

Canran yr eiddo sydd â chofnod diogelwch nwy y landlord dilys

Rydym unwaith eto wedi cyflawni 100% ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosyddion Gwerth am Arian y Sector Tai

Mae deg dangosydd Gwerth am Arian wedi eu nodi o'r Cyfrifon Cyffredinol, y gellir eu gweld ar lefel Cymru gyfan ac mae'n caniatáu i sefydliadau unigol gymharu eu hunain â chymdeithasau tai eraill. Mae ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn fel a ganlyn:

Dangosydd Gwerth am Arian	Gwir 2017/18	Gwir 2016/17	Cyfartaledd Sector 2016/17
Costau gweithredol am osodiadau fesul uned tai cymdeithasol	£2,969	£2,795	£3,211
Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol	£869	£785	£1,350
Costau atgyweirio adweithiol fesul uned tai cymdeithasol	£1,433	£1,340	£1,091
Costau atgyweiriadau mawr a chydannau fesul uned tai cymdeithasol	£1,288	£1,622	£1,084
Cyfanswm rhent fesul uned tai cymdeithasol	£4,496	£4,309	£5,314
Dyledion drwg fesul uned tai cymdeithasol	£31	£30	£29
Ôl-ddyledion gros/trosiant Tai Cymdeithasol	5.2%	4.5%	4.6%
Colled rhent ar eiddo gwag fesul uned tai cymdeithasol	£41	£36	£79
Cost gyfartalog bwysedig y cyfalaf	7.7%	7.69%	4.87%
Llif arian rhydd (cyn tynnu i lawr neu ad-dalu benthyciadau)	-926,000	-373,000	£969,697

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Costau gweithredol am osodiadau fesul uned tai cymdeithasol – mae hyn yn dangos costau cynyddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae hyn yn bennaf oherwydd yr ôl-groniad o dasgau atgyweirio a gawsom. Dylai hyn ostwng o 2018/19 ymlaen wrth i'r ôl-groniad gael ei glirio.

Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol – er bod ein costau wedi cynyddu ychydig o'i gymharu â'r llynedd, maent yn llawer is na chyfartaledd y sector. Ym mis Mai 2018, byddwn yn gadael ein swyddfa gyfredol ar brydles ac yn symud i brif swyddfa bwrpasol. Mae costau 2017/18 yn cynnwys y costau ar gyfer adfeiliadau a'r taliadau prydles sy'n weddill ar yr hen swyddfa, sy'n gostau untro.

Costau atgyweirio adweithiol fesul uned tai cymdeithasol – mae ein costau atgyweirio adweithiol wedi cynyddu ac maent yn uwch na chyfartaledd y sector oherwydd yr ôl-groniad o atgyweiriadau o flynyddoedd blaenorol fel y nodwyd uchod.

Costau atgyweiriadau mawr a chydrannau fesul uned tai cymdeithasol – er ein bod ni uwchlaw cyfartaledd y sector. Nid ein cost fesul uned wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn, yn unol â'n rhaglen fuddsoddi. Mae oedran ein stoc yn golygu ein bod yn disgwyl cael cost uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y mesur hwn.

Cyfanswm rhent fesul uned tai cymdeithasol – oedd £4,496, a oedd yn is na chyfartaledd y sector; nid yw hyn yn syndod gan fod y rhent a argymhellir ar gyfer Merthyr Tudful yn un o'r isaf yng Nghymru, ond mae'n welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dyledion drwg fesul uned tai cymdeithasol – mae ein perfformiad yn bennaf yn unol â'r flwyddyn flaenorol a chyfartaledd y sector.

Mae hyn yn ddymunol o ystyried y pwysau a wynebier gan ein tenantiaid yn dilyn y newidiadau mewn budd-dal lles.

Ôl-ddyledion rhent gros fel canran o'r trosiant – mae hyn yn dangos gostyngiad mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn erbyn cyfartaledd y sector. Mae effaith anghymesur diwygiadau budd-daliadau lles eraill yn yr ardal leol wedi effeithio'n andwyol ar allu ein tenantiaid i dalu eu rhent.

Colled rhent ar eiddo gwag fesul uned tai cymdeithasol – rydym wedi profi cynnydd mewn colled ar eiddo gwag oherwydd trosiant tenantiaeth cynyddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cost gyfartalog bwysedig y cyfalaf – mae ein canran yn uchel o'i chymharu â chyfartaledd y sector oherwydd ein bod wedi ein cloi i gytundeb llog cyfradd sefydlog, a gytunwyd ar drosglwyddiad; fe bennwyd y cyfraddau llog a swm yr elw gan argyfwng ariannol 2007-8.

Llif arian rhydd – mae hyn yn nodi a yw busnes yn cynhyrchu arian digonol i dalu am ei wariant rheoli a chynnal a chadw dyddiol, taliadau llog a disodli cydrannau (megis ceginau ac ystafelloedd ymolchi). Mae cymdeithasau tai eraill ar wahanol bwyntiau yn eu rhaglenni buddsoddi ac rydym yn dal i dynnu ar ein cyllid benthygiad, felly mae cymhariaeth ystyrlon â chyfartaledd y sector yn anodd. Mae ein perfformiad wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae ein costau'n cynnwys costau adeiladu untro ar gyfer ein prif swyddfa newydd. Rydym yn disgwyl gweld ein perfformiad yn gwella yn y dyfodol.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Rheoli Risg

Mae CCM yn wynebu amrywiaeth fawr o risgiau busnes. Rydym yn rheoli ac yn lliniaru'r risgiau hyn drwy ein Polisi a Strategaeth Rheoli Risg. Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg a bydd yn derbyn adroddiad ar risg ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o fonitro risg i'r Pwyllgor Archwilio.

Y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg yw'r fframwaith ar gyfer rheoli risgiau strategol a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion Corfforaethol. Mae'r Risgiau i'r Sector Cyfan a nodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u hystyried a'u cynnwys, lle'r oedd yn briodol. Mae risg yn cael ei hadolygu bob chwarter blwyddyn gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn monitro ansawdd y rheolaeth ar risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac maent hefyd yn penderfynu'r awydd am risg ar gyfer bob risg strategol. Os gwelir, ar ôl adolygu risg strategol, ei bod yn anghydnaws â'n hawydd am risg, rhoddir mesurau rheoli neu liniaru ychwanegol ar waith, neu ceisir cael mwy o sicrwydd bod y mesurau rheoli a bennwyd yn effeithiol. Mae ein harchwilwyr mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o'n prosesau rheoli risg.

Ein 6 phrif risg yw:-

1. Diwygio Budd-daliadau Lles.
2. Dirywiad y gymuned/Galw isel am dai.
3. Hawliadau yswiriant posib ar gyfer atebolrwydd.
4. Gwahaniaeth o ran costau ac incwm.
5. Diogelu Data.
6. Ansawdd ein heiddo sydd â fframiau dur (BISF).

Rheoli Trysorlys

Mae CCM yn gweithredu Polisi Rheoli Trysorlys sy'n ategu at y Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol ac sydd wedi'i seilio ar bedair egwyddor allweddol:

- Cydymffurfio â statudau, rheoliadau a'r arferion gorau.
- Diogelwch asedau ariannol.
- Hylifedd.
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau ariannol a sicrhau gwerth am arian.

Caiff y Strategaeth Rheoli Trysorlys ei hadolygu a'i diweddarau bob blwyddyn gan ein cyngorwyr allanol – Link Asset Services. Cymeradwyir hyn bob blwyddyn gan y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad ddwywaith y flwyddyn am y perfformiad ar reoli trysorlys.

Rheoli Risgiau Ariannol

Mae gweithgareddau CCM yn ei wneud yn agored i nifer o risgiau ariannol, h.y. risgiau o ran hylifedd, llif arian parod a chredyd.

Risg Hylifedd

Mae CCM yn defnyddio cyllid i ariannu dyledion tymor hir a thymor byr er mwyn cynnal hylifedd, gan sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer gweithrediadau cyfredol a datblygiadau yn y dyfodol. Mae CCM yn dal arian parod a buddsoddiadau tymor byr ac mae grantiau a chyfleuster benthyca o £40 miliwn ar gael iddo.

Mae dwy brif ffynhonnell o gyllid cyfalaf gan CCM:-

1. Cyfleuster benthyca o £40 miliwn a gafodd gan Royal Bank of Scotland (RBS) a Chymdeithas Adeiladu Principality. Mae hyn yn cynnwys £32 miliwn oddi wrth RBS ac £8 miliwn oddi wrth Gymdeithas Adeiladu Principality ac mae wedi'i rannu'n ddwy Gyfran, A a B. Mae Cyfran A yn darparu £24 miliwn, a'r cyfan ohoni wedi'i godi, a Chyfran B yn cynnwys £16 miliwn. Mae Cyfran B yn gyfleuster cylchol sy'n cael ei ddarparu gan RBS yn unig: mae hyn yn golygu y gellir ei chodi a'i had-dalu. Bydd Cyfran B yn troi'n fenthyciad am gyfnod penodol o 31 Mawrth 2023. Mae'r holl arian a fenthyciwyd hyd yma wedi'i godi o Gyfran A, felly ni ellir ei ad-dalu nes ein bod wedi cyrraedd y ddyled fwyaf yn 2019/20. Ar 31 Mawrth 2018, roedd swm ein benthyciadau wedi aros yn £24 miliwn ac nid oedd angen i ni godi arian ohono yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm am hynny oedd ein bod wedi cael incwm ychwanegol drwy werthu o dan yr Hawl i Brynu yn ystod y flwyddyn ac arbedion o'r rhaglen Gyfalaf. Bydd yr ad-daliad ar y cyfleuster benthyca yn ddyledus erbyn 31 Mawrth 2034. Fodd bynnag, ar sail y rhagolwg diweddaraf, byddwn wedi'i ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2031.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

2. Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddol o £2.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru a geir bob blwyddyn. Y disgwyl yw y bydd yn cael ei dderbyn tan 2036/37.

Disgwylir y bydd y ddyled fwyaf o £24.447 miliwn yn 2019/20 felly mae gennym gapasiti dros ben o £15 miliwn ar ein cyfleuster benthycia. Bydd hyn yn ffordd hwylus o ariannu cynlluniau ar gyfer codi tai newydd yn y dyfodol, os bydd yr arianwyr yn cymeradwyo hynny.

Yn 2014 derbyniwyd benthyciad o £510,000 dros gyfnod o 25 o flynyddoedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfradd log o 2.92%. Y balans sy'n ddyledus ar y benthyciad hwn yw £449,000 ar 31 Mawrth 2018. Caiff y benthyciad hwn ei ad-dalu trwy gytundeb prydles tymor hir â Chydweithfa Dai Taf Fechan.

Risg Llif Arian Parod

Gwnaed tri chytundeb ar gyfraddau sefydlog ar gyfer y dyfodol wrth drosglwyddo'r stoc er mwyn gwarchod rhag newidiadau anffafriol mewn cyfraddau llog. Gweithredwyd dau o'r rhain a chaiff y cytundeb olaf ar gyfradd log sefydlog ar gyfer y dyfodol ei weithredu o 1 Ebrill 2020. Mae'r benthyciadau a godwyd ar 31 Mawrth 2018 o £24 miliwn yn cynnwys £20 miliwn ar gyfraddau llog sefydlog a £4 miliwn ar gyfraddau amrywiadwy.

Mae ein Polisi a Strategaeth Rheoli Trysorlys yn gosod paramedrau ar y gymhareb rhwng cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy ar gyfer benthycia sydd rhwng 60% a 80% ar gyfraddau sefydlog er mwyn rhoi sicrwydd i ni ynghylch ein costau. Ar 31 Mawrth 2018 y ganran ar gyfer benthycia ar gyfraddau sefydlog o gymharu â chyfraddau amrywiadwy oedd 84% o gyfanswm y benthyciadau sy'n ddyledus. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo gwyro oddi wrth y polisi ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Rhagwelir mai cyfran y ddyled ar gyfraddau sefydlog fydd rhwng 60% ac 80% tan 2023.

Risg Credyd

Prif asedau ariannol CCM yw gweddillion mewn cyfrifon banc ac arian parod, ôl-ddyledion rhent a symiau derbyniadwy eraill a buddsoddiadau.

Gellir priodoli ein risg credyd yn bennaf i ôl-ddyledion rhent. Nid yw'r symiau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys lwfansau ar gyfer dyledion drwg. Mae'r risg credyd ar ein buddsoddiadau'n gyfyngedig am fod y partïon i'r contractau yn fanciau sydd â sgôr credyd sy'n unol â'n Polisi Rheoli Trysorlys.

Polisiau Cyfrifyddu Allweddol

Mae'r polisiau cyfrifyddu allweddol wedi'u nodi yn Nodyn 2 y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 26-33.

Busnes Hyfyw

Mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol bod digon o adnoddau gan CCM i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Oherwydd hyn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

Mae CCM wedi mabwysiadu Polisi Defnyddio Derbyniadau Cyfalaf sy'n nodi sut a pha bryd y gellir defnyddio derbyniadau cyfalaf. Y flaenoriaeth ar gyfer defnyddio derbyniadau cyfalaf yw:

- Rheoli llif arian parod
- Cynyddu'r gwariant cyfalaf ar ail-fuddsoddi mewn stoc
- Prynu eiddo drwy gynllun prynu'n ôl wedi'i dargedu
- Ariannu cynlluniau datblygu, ar ôl derbyn cymeradwyaeth yr Arianwyr.

Bydd unrhyw arian parod sydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gadw a'i ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ddilynol. Ni fyddwn yn gallu ad-dalu ein benthyciadau nes byddwn yn cyrraedd y ddyled fwyaf.



Nicola Evans
Cadeirydd – y Bwrdd
Dyddiad: 6 Medi 2018

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Mae'n falch gan y Bwrdd gyhoeddi ei adroddiad a'i ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM) ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018.

Prif Weithgareddau

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr (CCM) wedi cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae CCM yn gweithredu yn ardal awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Prif weithgareddau CCM yw rheoli a gwella tai cymdeithasol.

Perfformiad dros y flwyddyn

Adroddodd y Bwrdd warged o £1.966 miliwn. Yn ystod y flwyddyn gwariodd CCM £13.94 miliwn ar atgyweiriadau adweithiol, gwagleoedd a chylchol a'r rhaglen gyfalaf. Ariannwyd hyn gan gyllid mewnol h.y. incwm rhenti; incwm trwy werthu asedau; Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddol a grantiau eraill.

Yr asedau net ar 31 Mawrth 2018 oedd £15.754 miliwn. Ar 31 March 2018 y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ar gyfer y Gronfa Asedau Pensiwn oedd £3.545 miliwn.

Llywodraethu

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli materion CCM. Rhestrir Aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion ar dudalen 2 o dan 'Manylion Gweinyddol'. Mae Aelodau'r Bwrdd wedi dal eu swyddi yn ystod 2017/18 oni nodir yn wahanol.

Newidiodd ein strwythur cyfreithiol ar 1 Mai 2016 a daeth CCM y gymdeithas dai gyntaf gydfuddiannol i denantiaid a gweithwyr yng Nghymru, gan ganiatáu i denantiaid a gweithwyr ddod yn aelodau. Mae gan y Gydfuddiannaeth ddwy haen o lywodraethu:

- Corff Democrataidd sy'n cynnwys 21 aelod-gynrychiolydd:
 - a) Cynrychiolwyr tenantiaid a etholwyd gan aelodau tenant;
 - b) Cynrychiolwyr staff a etholwyd gan aelodau staff;
 - c) Cynrychiolaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
 - d) Cynrychiolaeth gan fudiadau cymunedol lleol – byddai'r rhain yn swyddi cyfetholedig yn ôl yr angen;
 - e) Mae'r Rheolau hefyd yn caniatáu i'r Corff Democrataidd benodi Cadeirydd annibynnol pe bai angen.
- Bwrdd sy'n cynnwys 8 Cyfarwyddwr nad ydynt yn weithredol sydd â'r sgiliau a'r profiad perthnasol a benodwyd gan y Corff Democrataidd i redeg y gydfuddiannaeth ar ei ran.

Roedd tri lle gwag ar y Corff Democrataidd ar 31 Mawrth 2018.

Mae gan ddwy ran y strwythur llywodraethu feysydd cyfrifoldeb allweddol a osodwyd yn y Fframwaith Rheolau a Llywodraethu.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyfreithiol dros reoli materion y Gydfuddiannaeth. Mae'r Corff Democrataidd yn gyfrifol am gynrychioli aelodau a diddordebau ehangach y gymuned trwy gytuno ar fframwaith strategol i'r Bwrdd weithredu yn unol ag ef a thrwy ddal y cyfarwyddwyr nad ydynt yn weithredol yn atebol.

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Mae gan CCM Bwyllgor Archwilio hefyd a daw'r aelodau o'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd.

Nid oes gan y Swyddogion Gweithredol Uwch unrhyw statws cyfreithiol fel cyfarwyddwyr er eu bod yn gweithredu fel gweithredwyr o fewn awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd. Mae gan CCM bolisiau yswiriant sy'n indemnio ei Aelodau Bwrdd a'i Swyddogion Gweithredol Uwch rhag atebolrwydd wrth weithredu ar ran y gydfuddiannaeth.

Corff Democrataidd

Ynghyd â'r Bwrdd mae'r Corff Democrataidd yn rhan o strwythur llywodraethu CCM gan weithredu fel y corff etholedig sy'n cynrychioli aelodau a'r gymuned ehangach ym mhroses gwneud penderfyniadau CCM.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Corff Democrataidd 6 gwaith yn ystod 2017/18 a chynhaliwyd 2 sesiwn ar y cyd â'r Bwrdd. Mae cyfrifoldebau'r Corff Democrataidd yn cynnwys;

- Penodi a diswyddo Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr eraill nad ydynt yn weithredol
- Gweithio gyda Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr a'u cefnogi i ddatblygu Cynllun Busnes y Gydfuddiannaeth
- Cymeradwyo cynllun corfforaethol, fframwaith polisi a rhaglen archwilio mewnol y Gydfuddiannaeth
- Monitro perfformiad y Gydfuddiannaeth a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn erbyn y strategaeth gorfforaethol

Yn ystod 2017/18 gwnaethpwyd y penderfyniadau hanfodol canlynol;

- Penodi 1 Cyfarwyddwr nad ydyw'n weithredol.

- Datblygu'r Strategaeth Gwerth am Arian "Yfory Cryf".
- Gwneud penderfyniad ar y cyd â'r Bwrdd ynghylch symud i renti byw ar gyfer 2018/19.
- Helpu i osod y gyllideb ar gyfer 2018/19.
- Monitro'r Strategaeth Aelodaeth
- Dylanwadu ar y Strategaeth Gaffael.

Mae rhestr lawn o weithredoedd y Corff Democrataidd wedi'u manylu fel rhan o reolau CCM sydd ar gael yn www.mvhomes.org.uk

Aelodaeth CCM

Caiff aelodau eu rhannu'n ddwy etholaeth sef tenantiaid a chyflogeion. Caiff aelodau fynediad i wybodaeth, llais yn y Gydfuddiannaeth a chyfle i chwarae rôl gynrychioladol o ran ei llywodraethu.

Aelodau	Nifer	%
Tenantiaid	1005	85.8%
Cyflogeion	167	14.2%

Cyflogeion

Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2018 oedd 190. Mae ein gallu i gyflawni ein hamcanion a'n hymrwymadau i denantiaid mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn dibynnu ar gyfraniad ein holl gyflogeion. Rydym yn cydnabod ac yn gweld gwerth mewn amrywiaeth ac wedi ymrwymo i gryfhau cydlyniant cymunedol ac i ddarparu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth trwy lynu at ein Polisi Cyfle Cyfartal.

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Rhoddion i Elusennau

Darparodd CCM roddion elusennol o £41,297 yn ystod y flwyddyn a gymeradwywyd gan y Panel Grantiau a Nawdd. Roedd hyn yn cynnwys y rhoddion canlynol:-

	£
Merthyr Aloud	660
Canolfan Soar	1,000
Cymdeithas Gymunedol Mynwent Y Crynwyr	320
Clwb Paffio Amatur Dowlais	2,304
Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens & George	1,317
Pentref Byd-Eang Merthyr Tudful	1,350
Pontio'r Bwlch I Ieuenctid	2,213
Mind Merthyr A'r Cymoedd	1,369
Grŵp Cymunedol Cyfarthfa	488
@Play Ysgol Y Graig	383
Cynyrchiadau Ad-Lib	4,744
*Banc Bwyd Merthyr Cynon	10,801
Lloches Nos	3,197
Cynghrair Pêl-Droed Merthyr Tudful	654
Tîm Achub Mynydd Y Bannau Canolog	5,000
Cymdeithas Eurflodau Dowlais	497
Clwb Ieuenctid Grŵp Gweithredu Twyn	5,000

*Defnyddiwyd arian o gyllidebau eraill i ariannu hyn yn rhannol.

Yn ogystal â'r rhoddion uchod gan y Panel Grantiau a Nawdd, roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo rhoi £49,500 i'r Gellideg Foundation Group.

Datganiad o Reolaeth Fewnol

Yn unol â Chylchlythyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 02/10 Rheolaethau Mewnol ac Adrodd Mewnol

Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd y Gymdeithas hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldebau am y systemau rheoli mewnol ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb am yr agweddau ehangach ar risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol CCM yn barhaus ac yn sicrhau bod pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i gywiro unrhyw ddiffygion neu wendidau sylweddol a gydnabyddir.

Mae systemau'r gydfuddiannaeth wedi'u llunio i roi sicrwydd rhesymol ond nid sicrwydd llwyr ynghylch:-

- Diogelu asedau.
- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol.
- Dibynadwyedd gwybodaeth ariannol.
- Rheolaeth ar risgiau a allai amharu ar allu'r Gydfuddiannaeth i gyflawni ei hamcanion corfforaethol (Yfory).

Y mecanweithiau canlynol yw elfennau allweddol y fframwaith sydd wedi'i gynllunio a'i weithredu gan reolwyr i ddarparu rheolaeth fewnol effeithiol:-

- Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n gosod y Cynllun Dirprwyo.
- Rheolau Sefydlog Contractau sy'n gosod y fframwaith ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau.
- Cyfrifoldebau rheoli a strwythurau adrodd corfforaethol ac adrannol sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Aelodau staff sydd â phrofiad a chymwysterau addas.
- Polisiâu a gweithdrefnau ffurfiol sydd wedi'u mabwysiadu gan y Bwrdd a'r Corff Democrataidd a'u deall gan aelodau staff.
- Systemau cynhwysfawr o adrodd ariannol sy'n cynnwys cyllidebau blynyddol a chyfrifon rheoli chwarterol a adroddir i'r Bwrdd, sy'n disgrifio'r gwir berfformiad ar y gyllideb.

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

- Monitro cyfamodau benthyca yn rheolaidd.
- Fframwaith Rheoli Risg sy'n cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Rydym wedi mabwysiadu nifer o bolisiau gwrth-dwyll, yn cynnwys polisiau yn erbyn llwgrwobrwy a gwyngalchu arian sydd wedi'u deall gan staff. Cedwir Cofrestr Twyll sy'n cael ei hadolygu a'i chynnal gan y Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.
- Awdurdodi contractau mawr a allai beri risg i'r sefydliad gan y Bwrdd.
- Gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.
- Cynllun busnes ariannol tri deg mlynedd sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn ac sy'n cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig.
- Strategaeth Gaffael sy'n disgrifio sut y bydd CCM yn cynnal gweithgareddau caffael.
- Datganiadau Buddiant Blynnyddol gan holl aelodau'r Bwrdd, cynrychiolwyr Corff Democrataidd a'r staff.
- Cedwir Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch sy'n cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod pob cyfarfod.
- Cedwir Cofrestr Atodlen 1 ac mae Ysgrifennydd y Cwmni yn adrodd i'r Bwrdd ar yr holl gofnodion.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu effeithiolrwydd rheolyddion mewnol CCM yn ystod y flwyddyn. Ni chanfuwyd gwendidau a oedd wedi arwain at golledion sylweddol, hapddigwyddiadau nac ansicrwydd y mae angen eu datgelu yn y datganiadau ariannol neu yn Adroddiad yr Archwilydd, ac nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw wendidau o'r fath o 1 Ebrill 2018 hyd y dyddiad hwn.

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau o'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol a Datganiadau Ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwysadwy. Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a deddfwriaeth Cymdeithasau Tai yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddfwriaeth honno, mae'r Bwrdd wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu Derbynol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfraith gymwys) - FRS102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

O dan ddeddfwriaeth Cymdeithasau Tai, mae'n rhaid i'r Bwrdd beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod wedi'i fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa CCM ac o warged neu ddiffyg CCM ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol bod y Bwrdd yn:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas, ac yn eu cymhwyso'n gyson.
- Ffurio barn ac yn gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a darbodus.
- Datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwysadwy'r Deyrnas Unedig, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd CCM yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion CCM ac i ddatgelu sefyllfa ariannol CCM yn rhesymol gywir ar unrhyw

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

adeg, a'i alluogi i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymdeithasau Tai. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau CCM ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan CCM ac am ei huniondeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli'r broses o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Datgelu gwybodaeth i'r Archwilydd

Mae pob aelod o'r Bwrdd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn wedi cadarnhau:

- Cyn belled ag y mae'r Bwrdd yn gwybod, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Gydfuddiannaeth yn gwybod amdani.
- Bod aelodau'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd

fel aelodau o'r Bwrdd i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilydd yn gwybod am y wybodaeth honno.

Cyfarfod Aelodau Blynnyddol

Cynhelir y Cyfarfod Aelodau Blynnyddol ar 6 Medi 2018 yn ein Prif Swyddfa newydd, Tŷ Brychan. Yn y cyfarfod hwn, cyflwynir Datganiadau Ariannol 2017/18 CCM ar gyfer eu mabwysiadu.

Archwilydd

Roedd gwasanaeth yr Archwilydd Allanol yn destun proses tendro yn ystod 2017/18. Penododd y Corff Democrataidd Mazars LLP ar ran yr Aelodau ar 22 Chwefror 2018.



Trwy orchymyn y Bwrdd
Nicola Evans
Cadeirydd – y Bwrdd
Dyddiad: 6 Medi 2018

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

.....

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (y 'gymdeithas'), ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018, sy'n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lif Arian, Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, a nodiadau gyda'r datganiadau ariannol, yn cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifo sylweddol. Defnyddiwyd fframwaith adrodd ariannol cyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig wrth eu llunio, gan gynnwys FRS 102 "Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (Arfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y gymdeithas ar 31 Mawrth 2018 ac o warged y gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a orffennwyd;
- wedi'u paratoi yn gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn ni.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol lle mae'n ofyniad arnom gan yr ISAs (DU) i'w hadrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nid yw defnydd y Bwrdd o'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Bwrdd wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn y datganiadau ariannol a all achosi amheuaeth sylweddol am allu'r endid i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw am gyfnod sydd o leiaf ddeuddeng mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

.....

Gwybodaeth arall

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Bwrdd, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arno. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodwyd yn wahanol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad.

Rydym wedi adolygu datganiad y Bwrdd parthed cydymffurfedd yr endid â chylchlythyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 02/10 'Rheolaethau mewnol ac adrodd mewnol' Llywodraeth Cymru. Nid oes gofyniad arnom i fynegi barn ar effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y gymdeithas.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu sydd fel arall yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatganu'n sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol amlwg, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os rydym yn casglu bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill a bennwyd gan gylchlythyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 02/10 'Rheolaethau mewnol ac adrodd mewnol' Llywodraeth Cymru

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad parthed datganiad y Bwrdd ynghylch rheolaeth fewnol:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datganiadau y gofynnwyd amdanynt gan gylchlythyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 02/10 'Rheolaethau mewnol ac adrodd mewnol'; ac
- nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni yn dilyn ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Materion eithriadol y mae gofyn i ni adrodd arnynt

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol lle y mae gofyniad arnom gan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 i'w hadrodd i chi os, yn ein barn;

- nad yw'r endid wedi cadw llyfrau cyfrifon priodol; neu
- nid yw system reolaeth foddhaol dros drafodiadau wedi'i chynnal; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom er mwyn cynnal ein harchwiliad

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

.....

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalen 17, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath a benderfynir gan y Bwrdd yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r endid i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu materion, fel bo'n berthnasol, sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail busnes hyfyw o gyfrifon oni bai fod y Bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol heb gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol, pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn, yn unigol neu ar y cyfan.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Defnyddio adroddiad yr archwilydd

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i aelodau'r gymdeithas fel corff yn unig, yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a Phennod 4 o Ran 2 Deddf Tai ac Adfywio 2008. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud fel y gallwn ddatgan i aelodau'r gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf posibl a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw un heblaw'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff ar gyfer ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu ar gyfer y safbwyntiau a ffurfiwyd gennym.

Mazars LLP

Mazars LLP

Chartered Accountants and Statutory Auditor
45 Church Street
Birmingham
B3 2RT
Dyddiad:

Datganiad Incwm Cynhwysfawr

Blwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2018

	Nodiadau	2018 £'000	2017 £'000
Trosiant	4	19,022	18,437
Gwariant gweithredol	4	<u>(16,091)</u>	<u>(15,208)</u>
Gwarged Gweithredol	5	2,931	3,229
Gwarged ar waredu eiddo, offer a chyfarpar	6	814	418
Llog a dderbynnir	7	112	193
Costau llog ac ariannu	8	(1,872)	(1,865)
Newid mewn gwerth teg eiddo buddsoddi	15	<u>(19)</u>	<u>-</u>
Gwarged cyn treth		1,966	1,975
Trethiant	2(n)	-	-
Gwarged am y flwyddyn		<u>1,966</u>	<u>1,975</u>
Incwm Cynhwysfawr Arall			
(Colledion) / enillion actiwaraid parthed cynlluniau pensiwn	31	809	(516)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		<u>2,775</u>	<u>1,459</u>

Gweithrediadau Parhaus


Daw pob trafodiad yn ystod y cyfnod o weithrediadau parhaus.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Mawrth 2018

	Nodiadau	2018 £'000	2017 £'000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	11	828	744
Eiddo, Offer a Chyfarpar			
– Eiddo tai	12	57,219	55,598
– Eiddo, offer a chyfarpar arall	14	5,051	1,709
Eiddo buddsoddi	15	878	897
		<u>63,976</u>	<u>58,948</u>
Asedau cyfredol			
Rhestrau eiddo	16	12	15
Dyledwyr			
– Symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn	17	1,346	995
– Symiau'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	18	61,281	64,976
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	27	1,654	2,061
		<u>64,293</u>	<u>68,047</u>
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn	19	(3,517)	(3,340)
Arian gwaddoli a grantiau Llywodraeth eraill: symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn	22	(1,537)	(1,513)
Asedau cyfredol net ac eithrio asedau pensiwn		59,239	63,194
Asedau pensiwn	31	3,545	3,765
Asedau cyfredol net gan gynnwys asedau pensiwn		<u>62,784</u>	<u>66,959</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		126,760	125,907
Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	20	(24,473)	(24,727)
Arian gwaddoli a grantiau Llywodraeth eraill: symiau'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	22	(25,084)	(23,225)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	29	(61,449)	(64,976)
Asedau Net		<u>15,754</u>	<u>12,979</u>
Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn			
Cyfalaf cyfrannau	23	-	-
Cronfeydd refeniw wrth gefn		12,209	9,213
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig	24	3,545	3,766
		<u>15,754</u>	<u>12,979</u>

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 22 i 55 i'w dosbarthu gan y Bwrdd Rheoli ar 6 Medi 2018 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Nicola Evans
(Cadeirydd – y Bwrdd)



John Chown
(Is-gadeirydd – y Bwrdd)



Allison Soroko
(Ysgrifennydd y Cwmni)

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn

Blwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2018

		Nodiadau Cronfeydd refeniw wrth gefn £'000	Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2016		6,658	4,862	11,520
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		1,975	-	1,975
<u>Incwm cynhwysfawr arall</u>				
Colled actiwaraid parthed cynlluniau pensiwn	31	-	(516)	(516)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr		8,633	4,346	12,979
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	24	580	(580)	-
Ar 31 Mawrth 2017		9,213	3,766	12,979
		£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2017		9,213	3,766	12,979
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		1,966	-	1,966
<u>Incwm cynhwysfawr arall</u>				
Colled actiwaraid parthed cynlluniau pensiwn	31	-	809	809
Cyfanswm incwm cynhwysfawr		11,179	4,575	15,754
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	24	1,030	(1,030)	-
Ar 31 Mawrth 2018		12,209	3,545	15,754

Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn

Mae'r gronfa wrth gefn yn cynrychioli gwargedion a diffygion cronnus y Gymdeithas.

Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn

Mae'r gronfa gyfyngedig wrth gefn yn ymwneud ag Ased Cronfa Bensiwn a grant Llais Cymunedol y Loteri Fawr ar gyfer prosiect Perthyn: Belonging.

Datganiad o Lif Arian

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

	Nodiadau	2018 £'000	2017 £'000
Arian net a gynhyrchwyd gan weithgareddau gweithredol	27	6,188	5,948
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar		(5,055)	(6,425)
Prynu asedau sefydlog eraill		(3,865)	(1,138)
Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar		814	418
Grantiau a dderbyniwyd		3,374	2,953
Llog a dderbyniwyd		10	16
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(4,722)</u>	<u>(4,176)</u>
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(1,759)	(1,849)
Elfen log taliadau prydles gyllidol		(34)	(14)
Ad-daliadau benthyciadau		(20)	(21)
Elfen gyfalaf taliadau prydles gyllidol		(94)	(75)
Trefniant benthyciad refeniw		34	34
Llif arian net o weithgareddau ariannu		<u>(1,873)</u>	<u>(1,925)</u>
Gostyngiad net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod		(407)	(153)
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		2,061	2,214
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		<u>1,654</u>	<u>2,061</u>

Llif arian rhydd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth

	2018 £'000	2017 £'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol	6,188	5,948
Llog a dalwyd	(1,725)	(1,815)
Llog a dderbyniwyd	10	16
Addasiadau ar gyfer ail-fuddsoddi mewn eiddo presennol:		
Amnewid cydrannau	(4,908)	(6,336)
Prynu asedau sefydlog amnewid eraill	(3,865)	(1,138)
Grant amnewid cydrannau a dderbyniwyd	3,374	2,952
Arian parod rhydd a ddefnyddiwyd cyn ad-daliadau benthyciadau	(926)	(373)
Benthyciadau a ad-dalwyd (ac eithrio credyd cylchol a gorddrafftiau)	(20)	(21)
Arian parod rhydd a ddefnyddiwyd ar ôl ad-daliadau benthyciadau	<u>(946)</u>	<u>(394)</u>

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

1) a) Gwybodaeth Gyffredinol

Datganiadau ariannol Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM) ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018 yw'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad o Lif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u cyflwyno mewn sterling (£).

b) Gwybodaeth am y cwmni

Mae CCM wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a gofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru. Mae CCM wedi mabwysiadu rheolau elusennol. Mae CCM wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Ei swyddfa gofrestredig yw Tŷ Brychan, 22 Heol Lansbury, Gellideg, Merthyr Tudful, CF48 1HA.

Mae CCM yn berchen ar 4,131 o dai rhent, gan gynnwys 206 o unedau o lety gwarchod, a leolir ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae CCM hefyd yn berchen ar neu'n rheoli 627 o garejys, 39 o unedau manwerthu, bloc o 12 o fflatiau tai cydweithredol sydd wedi'u prydlesu i Gydweithfa Dai Taf Fechan Cyf a 283 o dai lesddaliadol.

2) Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Mae pob un ohonynt wedi'i gymhwyso'n gyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

a) Sail Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys eitemau penodol

ar werth teg, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a ddyroddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac maent yn cydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig 2014 (SORP), Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig yn endid budd cyhoeddus, yn unol â'r diffiniad yn FRS 102 ac mae'n cymhwyso'r paragraffau perthnasol â'r rhagddodiad 'PBE' yn FRS 102.

b) Asedau Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol wedi'u datgan ar y gost hanesyddol, llai'r amorteiddio a gronnwyd. Darparwyd amorteiddio ar yr holl asedau anniriaethol ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo er mwyn dileu cost pob un o'r asedau ar sail llinell syth dros ei hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Cydran	Oes Economaidd a Ragamcanir (blynyddoedd)
Meddalwedd cyfrifiadur	5-8

c) Eiddo, offer a chyfarpar – eiddo tai

Yn dilyn trosglwyddiad stoc 30 Mawrth 2009, prisiwyd yr eiddo ar £dim. Mae eiddo tai wedi'i ddatgan ar ei gost llai'r dibrisiant cronedig a cholledion am leihad yn y gwerth cronedig. Mae cost yn cynnwys cost caffael tir ac adeiladau, costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol a chostau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu eiddo tai newydd yn ystod y datblygu. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn gallu cynnwys costau llafur Tîm

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Gwasanaethau Eiddo Mewnol Cartrefi Cymoedd Merthyr, deunyddiau a chostau gorbenion.

Mae cyfalafu'n gorffen pan fydd yr holl weithgareddau sydd eu hangen i baratoi'r ased i'w ddefnyddio wedi cael eu cwblhau.

Codir am ddibrisiant er mwyn gostwng llyfrwerth net eiddo tai i'w werth gweddillol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth, dros ei oes economaidd ddefnyddiol. Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio. Nid yw eiddo sy'n cael ei adeiladu'n cael ei ddibrisio.

Mae eiddo a adeiladwyd mewn modd traddodiadol yn cael ei ddibrisio dros 100 mlynedd. Mae eiddo a godwyd mewn modd annhraddodiadol yn cael ei ddibrisio dros 50 mlynedd.

Cydrannau mawr

Mae cydrannau mawr mewn eiddo tai, y defnyddir eu buddion economaidd ar sail patrymau gwahanol iawn, yn cael eu trin fel asedau ar wahân ac yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig ar y cyfraddau blynyddol a ganlyn:

Cydran	Oes Economaidd a Ragamcanir (blynyddoedd)
Toeon	50
Drysau a ffenestri	30
Ceginau	15
Ystafelloedd ymolchi	25
Systemau gwresogi	15
Ailwifro	25
Strwythur Adeiladu (waliau, waliau cynnal, llwybrau ac ati)	50
Arall	10-15

Mae eiddo sy'n cael ei ddal ar les hir yn cael ei ddibrisio dros ei oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig neu dros gyfnod y les, os yw'n fyrrach.

Gwelliannau

Lle ceir gwelliannau i eiddo tai y disgwylir iddynt roi buddion cynyddrannol yn y dyfodol, mae'r rhain yn cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at swm cario'r eiddo. Mae unrhyw waith ar eiddo tai nad yw'n cymryd lle cydran neu'n arwain at fudd cynyddrannol yn y dyfodol yn cael ei godi fel gwariant ar ffurf gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Er mwyn cynyddu perfformiad ased, rhaid i wariant arwain at un neu ragor o'r canlynol:-

- Mwy o incwm rhent.
- Llai o gostau cynnal yn y dyfodol.
- Estyniad sylweddol i oes ddefnyddiol eiddo.

Lesddeiliaid

Lle mae'r hawliau a rhwymedigaethau am wella eiddo tai yn perthyn i'r lesddeiliaid neu denant, mae unrhyw waith i wella eiddo o'r fath a ysgwyddir gan CCM yn cael ei ailgodi ar y lesddeiliad ac yn cael ei gydnabod yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ynghyd â'r incwm cyfatebol oddi wrth y lesddeiliad neu denant.

Amseru dibrisiant ar eiddo tai

Dechreuir codi dibrisiant ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas ag ased yn ystod mis cydnabod yr ased a gwblhawyd.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

d) Eiddo heblaw offer, tai a chyfarpar

Mae eiddo heblaw tai, offer a chyfarpar yn cael ei ddatgan ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Darperir dibrisiant ar yr holl eiddo heblaw tai, offer a chyfarpar, ac eithrio eiddo buddsoddi a thir rhydd-ddaliadol, ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo er mwyn dileu'r gost neu'r prisiad, llai amcangyfrif o'r gwerth gweddillol, ar gyfer pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Cydran	Oes Economaidd a Ragamcanir (blynnyddoedd)
Gwelliannau Swyddfeydd	10
Celfi, Gosodiadau a Ffitiadau	10
System Ffôn	8
Cyfarpar Swyddfa	5
Caledwedd Gweithredu Cyfrifiadur	5-8
Caledwedd Cyfrifiadur - Arall	3
Cyfarpar a Chelfi Cynllun	10-25

Ni fydd oes ased yn cael ei newid heblaw mewn amgylchiadau eithriadol lle ceir gwybod ymlaen llaw y bydd oes economaidd ddefnyddiol yr ased yn llai.

Amseru dibrisiant eiddo heblaw tai, offer a chyfarpar

Dechreuir codi am ddibrisiant ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y mis ar ôl caffael yr ased hwnnw.

e) Eiddo buddsoddi

Mae eiddo'n cael ei ddynodi'n eiddo buddsoddi neu'n eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y defnydd arfaethedig o'r eiddo. Mae eiddo sy'n cael ei ddal er mwyn cael rhent masnachol neu ar gyfer adbrisiant cyfalaf, neu'r ddau, yn cael ei ddynodi'n eiddo buddsoddi. Mae eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i ddibenion gweinyddol neu'n cael ei ddal ar gyfer darparu tai cymdeithasol yn cael ei drin fel eiddo, offer a chyfarpar. Gwahenir rhwng eiddo â defnydd cymysg ac eiddo buddsoddi ac eiddo, offer a chyfarpar.

Cyfrifyddir ar gyfer tir ar sail ei ddefnydd arfaethedig. Os yw tir wedi'i gaffael ar hap gyda'r bwriad o gynyddu cyfalaf a/neu gael elw o rent masnachol, cyfrifyddir ar ei gyfer fel eiddo buddsoddi. Os yw tir wedi'i gaffael i'w ddefnyddio i ddarparu tai cymdeithasol neu er budd i gymdeithas, cyfrifyddir ar ei gyfer fel eiddo, peiriannau a chyfarpar.

Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur ar y gwerth teg bob blwyddyn ac mae unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

f) Lleihad yng ngwerth eiddo tai cymdeithasol

Nid yw eiddo a ddelir er budd i gymdeithas yn cael ei ddal am y mewnlifau o arian parod y mae'n eu creu'n unig ac mae'n cael ei ddal oherwydd ei botensial ar gyfer gwasanaethau.

Ar bob dyddiad adrodd, asesir a oes arwydd o leihad mewn gwerth. Os oes arwydd o'r fath, cynhelir asesiad o leihad mewn gwerth a gwneir amcangyfrif o swm yr ased y gellir ei adennill. Os yw

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

swm cario'r ased yn fwy na'r swm y gellir ei adennill amdano, mae colled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei chydabod yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Y swm y gellir ei adennill am ased yw ei werth wrth ei ddefnyddio neu ei werth teg llai costau i'w werthu, pa un bynnag yw'r mwyaf. Os yw ased yn cael ei ddal oherwydd ei botensial ar gyfer gwasanaethau, pennir y gwerth wrth ei ddefnyddio ar sail gwerth presennol y potensial ar gyfer gwasanaethau sy'n weddill yn yr ased ynghyd â'r swm net y disgwylir ei gael o'i waredu. Mae'r gost amnewid ddibrisiedig yn cael ei chymryd yn fodel mesur addas.

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gwirio bob blwyddyn am unrhyw arwydd o leihad mewn gwerth drwy gyfeirio at y canlynol:-

- Halogiad neu fater tebyg arall nad oedd wedi'i nodi fel rhan o gynllunio datblygiad sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn costau datblygu.
- Newid mewn polisi, rheoliad neu ddeddfwriaeth y llywodraeth sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y rhaglen neu'r cynllun datblygu.
- Newid yn y galw am eiddo sy'n cael ei ystyried yn anadferadwy.
- Gostyngiad materol yng ngwerth eiddo'r farchnad yn yr amgylchiadau hynny lle bwriedir neu y disgwylir i'r asedau gael eu gwerthu.
- Darfodiad eiddo, neu ran o eiddo.
- Mae newidiadau sylweddol gydag effaith andwyol ar y landlord cymdeithasol wedi digwydd yn ystod y cyfnod, neu y disgwylir iddynt ddigwydd yn y dyfodol agos, i'r graddau y defnyddir neu y disgwylir defnyddio ased, neu'r modd y caiff ei ddefnyddio.

Bydd colled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei gwrthdroi os yw'r rhesymau dros y golled oherwydd lleihad mewn gwerth wedi peidio â bod. Bydd y warged hon neu'r diffyg o ganlyniad i hyn yn cael ei ddangos yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

g) Grant Tai Cymdeithasol a grantiau Llywodraeth eraill

Lle ceir grantiau oddi wrth asiantaethau llywodraeth fel Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, asiantaethau llywodraeth ddatganoledig, awdurdodau ieuchyd a'r Comisiwn Ewropeaidd, a'u bod yn gyson â'r diffiniad o grantiau llywodraeth, maent yn cael eu cydnabod pan fydd sicrwydd rhesymol y bydd yr amodau sydd arnynt yn cael eu bodloni ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Ceir cyllid llenwi bwlch gwaddol oddi wrth Llywodraeth Cymru ac ni ellir ei ad-dalu.

Mae grantiau Llywodraeth yn cael eu cydnabod o dan y model croniadau ac yn cael eu dynodi'n grant cysylltiedig â refeniw neu'n grant cysylltiedig ag asedau. Mae grantiau cysylltiedig â refeniw yn cael eu cydnabod mewn incwm ar sail systematig dros y cyfnod y cydnabyddir costau cysylltiedig y bwriedir i'r grant ddigolledu amdanynt. Os yw grant yn dderbyniadwy fel digollediad am dreuliau neu golledion a ysgwyddwyd eisoes neu i roi cymorth ariannol ar unwaith heb gostau cysylltiedig yn y dyfodol, mae'n cael ei gydnabod yn refeniw yn y cyfnod y mae'n dod yn dderbyniadwy.

Mae grantiau cysylltiedig ag asedau'n cael eu cydnabod mewn incwm ar sail systematig dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau a geir

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

ar gyfer eiddo tai yn cael eu cydnabod mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig adeiladwaith yr eiddo tai. Lle ceir grantiau yn benodol ar gyfer cydrannau eiddo tŷ, cydnabyddir y grant fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y gydran.

Mae grantiau a geir o ffynonellau heblaw llywodraeth yn cael eu cydnabod yn refeniw o dan y model perfformiad.

h) Rhoi neu gaffael tir neu ased arall o dan werth y farchnad

Os ceir rhodd o dir a/neu asedau eraill neu os bydd CCM yn caffael tir a/neu asedau eraill o dan eu gwerth ar y farchnad oddi wrth drydydd parti nad yw'n gyson â'r diffiniad o ffynhonnell llywodraeth, bydd y trafodiad yn cael ei gydnabod yn ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ei werth teg, gan ystyried unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o'r ased. Mae incwm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n daladwy am yr ased a gwerth teg yr ased yn cael ei gydnabod yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel rhodd ar ôl bodloni amodau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol.

i) Cytundebau i wella eiddo presennol

Mae trefniadau ar waith, a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, i gysgodi CCM rhag TAW am 15 mlynedd. Mae'r trefniadau hyn yn trosglwyddo cost TAW y gwaith sydd ei angen i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r trafodion fel a ganlyn:

- O dan y cytundeb trosglwyddo, roedd y Cyngor wedi trosglwyddo'r eiddo i CCM

ynghyd â rhwymedigaeth i ymgymryd â gwaith SATC ar draul y Cyngor. Y pris a dalwyd am yr eiddo oedd £133,023,642; mae'r pris hwn yn adlewyrchu Gwerth Marchnad yr eiddo gyda Thenantiaid, sef dim, ac amcangyfrif o werth y gwaith, sef £133,023,642.

- Cyflawnodd y Cyngor ei rwymedigaeth i wneud y gwaith o dan y Cytundeb Trosglwyddo drwy wneud Cytundeb Datblygu 15 mlynedd â Chartrefi Cymoedd Merthyr. Mae hwn yn gontract pris penodedig am £133,023,642 ynghyd â TAW o £19,953,546.

Dros gyfnod y Cytundeb Datblygu, mae hawl gan CCM i hawlio TAW yn ôl ar y costau y mae'n eu hysgwyyddo oddi wrth drydydd parti am wneud y gwaith SATC, fel y mae'r Cytundeb Datblygu yn nodi.

Effaith fasnachol y trafodion hyn yw bod ased gan CCM (sef y rhwymedigaeth ar y Cyngor i beri i'r gwaith adnewyddu gael ei gyflawni) ynghyd â rhwymedigaeth gyfreithiol i drydydd parti (o dan y Cytundeb Datblygu) ac mae'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn wedi'u cydnabod yn y datganiadau ariannol.

j) Rhestrau eiddo

Mae rhestrau eiddo wedi'u datgan ar y gost neu'r gwerth sylweddoladwy net, pa un bynnag sydd isaf.

k) Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig

Os oes cyfyngiad allanol ar gronfeydd wrth gefn, maent yn cael eu cydnabod ar wahân o fewn cronfeydd wrth gefn fel cronfa wrth gefn gyfyngedig. Mae refeniw a gwariant yn cael eu cynnwys ar ffurf gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

gwneir trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i'r gronfa wrth gefn gyfyngedig. Mae disgrifiad o bob un o'r cronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn Nodyn 24.

l) Asedau wedi'u lesio

Wrth wneud cytundebau, bydd CCM yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn les, neu'n cynnwys les, ar sail sylwedd y trefniant.

Asedau ar les cyllid

Mae lesioedd asedau sy'n trosglwyddo'r cyfan, i bob pwrpas, o'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yn cael eu dynodi'n lesioedd cyllid.

Mae lesioedd cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r les yn asedau ar werth teg yr ased a lesiwyd neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm y taliadau lesio wedi'i gyfrifo ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les.

Mae asedau'n cael eu dibrisio dros gyfnod y les neu oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Asesir asedau am leihad mewn gwerth ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf y rhwymedigaethau mewn lesioedd fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r trefniant. Dyrennir taliadau lesio rhwng ad-daliadau cyfalaf a'r gostyngiad ar y rhwymedigaeth les sy'n weddill. Cydnabyddir y taliadau cyllid ar sail sy'n adlewyrchu cyfradd llog cyson ar y rhwymedigaeth les.

Asedau ar lesioedd gweithredu

Mae lesioedd nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchenogaeth

yn cael eu dynodi'n lesioedd gweithredu.

Codir taliadau o dan lesioedd gweithredu yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

m) Llog sy'n daladwy

Costau benthyca yw llog a chostau eraill a ysgwyddir mewn cysylltiad â benthyca arian. Ar gyfer benthyciadau newydd, dyrennir y costau hyn i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros gyfnod y benthyciad. Lle mae benthyciadau'n cael eu clirio'n llwyr, bydd yr holl gost am unrhyw gosb am glirio'n llwyr yn cael ei chydabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cliriwyd y benthyciad.

n) Trethi

(a) TAW

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys TAW i'r graddau y mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn ddarostyngedig iddi ac na ellir ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae gweddill y TAW sy'n daladwy neu na ellir ei hadennill ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth neu ased cyfredol.

(b) Treth Gorfforaeth

Mae CCM yn cael ei drin fel endid elusennol i ddibenion trethu. Cadarnhawyd hyn gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar 3 Medi 2008.

O ganlyniad i hyn, mae gwargedau a geir o weithgareddau elusennol sylfaenol wedi'u hesemptio rhag eu trethu.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

o) Pensiynau

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae CCM yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cyngor Bwrdeistef Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRCT). Gweinyddir y Gronfa gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd nifer o'r staff a drosglwyddodd i Gartrefi Cymoedd Merthyr ar adeg y trosglwyddo yn aelodau o'r gronfa ac roedd unrhyw rywmedigaethau pensiwn ar adeg y trosglwyddo wedi'u hariannu'n llawn gan y Cyngor, ac roedd costau ar ôl hynny i gael eu hysgwyddo gan y gydfuddiannaeth. Mae Bond Pensiwn yn ei le am y swm o £1,175,000 (swm y Bond).

Mae'r holl gyflogeion newydd a phresennol yn cael dewis ymuno â'r cynllun pensiwn, fodd bynnag mae pob cyflogai newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig. Mae'n gynllun buddion wedi'u diffinio, sydd ers 2014, yn darparu buddion ar sail y cyflog pensiynadwy terfynol.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun ar gyfer nifer o gyflogwyr lle mae cyflogwyr unigol, fel cyrff a dderbyniwyd, yn gallu canfod eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Ar gyfer y cynllun hwn, y symiau a godir ar wagedau gweithredu yw'r costau sy'n codi o wasanaethau cyflogeion a roddwyd yn ystod y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, setliadau a chwtogiadau. Maent wedi'u cynnwys yn rhan o gostau staff. Codir y gost llog net ar y rhwymedigaeth net am fuddion wedi'u diffinio ar referniw a'i chynnwys yn y costau cyllid. Mae ail-fesur yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraid a'r elw

ar asedau'r cynllun (heb gynnwys symiau a oedd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth net am fuddion wedi'u diffinio) yn cael ei gydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall.

Mae cynlluniau buddion wedi'u diffinio yn cael eu hariannu, ac mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau'r CCM, mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae asedau'r cynllun pensiwn yn cael eu mesur ar eu gwerth teg a rhwymedigaethau'n cael eu mesur ar sail actiwaraid o dan y dull credyd uned rhagamcanol. Ceir y prisiadau actiwaraid bob tair blynedd o leiaf, ac maent yn cael eu diweddarau ar ddyddiad pob Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

p) Trosiant

Trosiant yw rhent a thaliadau gwasanaeth sy'n dderbyniadwy (heb gynnwys colledion rhent a thaliadau gwasanaeth ar eiddo gwag na'r gostyngiad ar gyfer taliadau Debyd Uniongyrchol) a'r elw o waredu asedau cyfredol ynghyd â grantiau referniw oddi wrth awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru a ffioedd a rhoddion elusennol.

q) Cronfa ad-dalu lesddeiliaid

Lle mae lesddeiliaid yn talu ymlaen llaw am waith mawr neu gynlluniedig penodedig yn y dyfodol, mae unrhyw gyfraniadau sydd heb eu defnyddio'n cael eu cydnabod yn rhwymedigaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

r) Offerynnau Ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd CCM yn dod yn barti i ddarpariaethau contractiol yr offeryn.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Asedau Ariannol

Asedau ariannol yw ôl-ddyledion rhent, symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill ac arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod. Ar y dechrau, mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod ar werth eu trafodiad ynghyd â chostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r trafodiad.

Gwneir darpariaethau rhag ôl-ddyledion rhent tenantiaid cyfredol a blaenorol yn ogystal â dyledion eraill, i'r graddau y credir na ellir eu hadennill.

Caiff ased ariannol ei ddatgydnabod pan fydd yr hawliau contractiol i'r llifau arian parod yn dod i ben, neu pan fydd yr ased ariannol a'r holl risgiau a gwobrwyon sylweddol yn cael eu trosglwyddo.

Os yw trefniant yn drafodiad ariannu, caiff yr ased ariannol ei fesur ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg.

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae'r rhwymedigaethau ariannol hyn yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill a benthyciadau sy'n dwyn llog.

Mae offerynnau dyled anghyfredol sy'n bodloni'r amodau angenrheidiol yn FRS 102 yn cael eu cydnabod ar y dechrau ar y gwerth teg wedi'i addasu ar gyfer unrhyw gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r trafodiad, ac mae taliadau cysylltiedig â llog yn cael eu cydnabod yn draul mewn Costau Cyllid yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Os yw offeryn dyled anghyfredol yn cynnwys elfen ansylfaenol, mesurir hyn ar y gwerth teg bob blwyddyn

a bydd unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Bydd rhwymedigaeth ariannol yn cael ei datgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth contractiol wedi'i diddymu yn unig, hynny yw, pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei chyflawni, ei dileu, neu'n dod i ben.

s) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yw arian mewn llaw a chyfrifon arian cadw ar alwad, ynghyd â buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn symiau hysbys o arian parod ac sy'n agored i risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

3. Dyfarniadau Pwysig gan Reolwyr a'r Prif Ffynonellau o Ansicrwydd wrth Amcangyfrif

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn galw ar reolwyr i wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y cymhwyso ar bolisiau a symiau'r asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau a gofnodir. Mae'r amcangyfrifon a rhagdybiaethau cysylltiedig wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a gwahanol ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau, y mae eu canlyniadau'n sail i ddyfarniadau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnodau y mae'n effeithio arnynt yn y dyfodol.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Dyfarniadau pwysig gan reolwyr

Y canlynol yw'r dyfarniadau gan reolwyr wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu CCM sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau sydd wedi'u cydnabod yn y datganiadau ariannol.

Lleihad yng ngwerth eiddo tai cymdeithasol

Mae'n rhaid i CCM asesu a oes arwydd o leihad mewn gwerth. Wrth benderfynu ar hyn, roedd rheolwyr wedi ystyried y meini prawf manwl sydd yn y SORP.

Ansicrwydd ynghylch amcangyfrif

Mae CCM yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch y dyfodol. Drwy ddiffiniad, anaml y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir o ganlyniad yn cyfateb i'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sy'n creu risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol mewn symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf wedi'u trafod isod.

Mesur gwerth teg

Mae rheolwyr yn defnyddio technegau prisio i bennu gwerth teg asedau. Mae manylion am werth teg offerynnau ariannol CCM yn nodyn 21. Mae CCM yn cymryd ymlaen arbenigwyr ar reoli trysorlys i gael y prisiad. Mesurir eiddo buddsoddi ar ei werth teg, ar sail gwerthoedd marchnad a baratowyd gan gwmni o arbenigwyr ar brisio eiddo.

Darpariaethau

Ar sail gwybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad diwedd y flwyddyn, mae rheolwyr yn amcangyfrif lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen i gyfrifyddu ar gyfer dyledion y gallant fod yn anghasgladwy. Gwneir darpariaeth ar gyfer adfeiliadau a phrydlesi beichus wrth adael ein swyddfa dan brydles. Mae'r darpariaethau hyn yn gofyn am amcangyfrif gorau rheolwyr o'r costau a fydd yn cael eu talu yn seiliedig ar ofynion cytundebol.

Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Mae CCM o dan rwymedigaeth i dalu buddion pensiwn i gyflogaion penodol. Mae cost y buddion hyn a gwerth presennol y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys disgwyliad oes, cynnydd mewn cyflogau, prisiau o asedau a chyfradd disgownt bondiau corfforaethol. Mae rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth bennu'r ased pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae'r rhagdybiaethau'n adlewyrchu profiad hanesyddol a thueddiadau cyfredol. Mae CCM yn cymryd ymlaen cwmni o actiwariaid i dderbyn cyngor arbenigol am y rhagdybiaethau i'w cymhwyso.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

4) Trosiant, Costau Gweithredu a Gwarged Gweithredu

Manylion trosiant, cost gwerthiannau, costau gweithredu a'r gwarged gweithredu

Nodyn A

	2018 Trosiant £'000	2018 Costau Gweithredu £'000	2018 Gwarged Gweithredu £'000	2017 Trosiant £'000	2017 Costau Gweithredu £'000	2017 Gwarged Gweithredu £'000
Gosod tai cymdeithasol (Nodyn B)	18,573	15,976	2,597	17,925	15,100	2,825
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill:						
Cefnogi Pobl	128	115	13	92	108	(16)
Incwm grant arall	8	-	8	25	-	25
Incwm arall	313	-	313	395	-	395
Cyfanswm	<u>19,022</u>	<u>16,091</u>	<u>2,931</u>	<u>18,437</u>	<u>15,208</u>	<u>3,229</u>

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Manylion incwm a gwariant o osod tai cymdeithasol

Nodyn B	Anghenion Cyffredinol	Tai â Lloches	2018	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm				
Rhent derbyniadwy	16,113	802	16,915	16,246
Incwm o daliadau gwasanaeth	49	119	168	208
Grantiau llywodraeth wedi'u hamorteiddio	1,490	-	1,490	1,471
Trosiant o osod tai cymdeithasol	17,652	921	18,573	17,925
Gwariant				
Costau taliadau gwasanaeth	1	58	59	64
Rheoli	3,152	436	3,588	3,266
Cymorth tenantiaid	139	-	139	188
Cynnal a chadw arferol	5,920	-	5,920	5,575
Gwariant atgyweiriadau mawr	2,698	-	2,698	2,721
Dyledion drwg o rent	94	-	94	78
Dyledion drwg o incwm arall	32	-	32	45
Dibrisiant eiddo tai	3,446	-	3,446	3,163
Costau gweithredol	15,482	494	15,976	15,100
Gwarged gweithredu o osod tai cymdeithasol	2,170	427	2,597	2,825
Colledion ar eiddo gwag	160	9	169	148

O fewn grant ac incwm arall yn Nodyn A mae incwm a gafwyd o'r canlynol:

	2018	2017
	£'000	£'000
Grantiau o SPRG	128	92
Incwm grant arall	8	25
Rhenti siopau	140	137
Lesddeiliaid	96	76
Incwm arall	<u>78</u>	<u>182</u>

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

5) Gwarged gweithredu

Y gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn ar ôl codi taliadau yw:

	2018 £'000	2017 £'000
Amorteiddio – asedau anniriaethol	146	150
Dibrisiant – eiddo tai	3,355	3,125
Lleihad mewn Gwerth – eiddo tai	88	38
Dibrisiant – asedau sefydlog eraill	291	247
Lleihad mewn gwerth – asedau sefydlog eraill	6	-
Tâl yr archwilyr mewn perthynas â gwasanaethau archwilio	18	23
Rhenti lesoedd gweithredu (eiddo)	-	171
Rhenti lesoedd gweithredu (arall)	4	9
Colledion rhent ar eiddo gwag	169	148
Costau dyledion drwg	126	123

6) Gwarged ar Waredu Eiddo, Offer a Chyfarpar

	2018 £'000	2017 £'000
Elw o werthiannau	1,086	773
Llai costau gwerthiannau	(193)	(202)
Gwarged ar ôl gwerthu eiddo tai	893	571
Colled ar ôl gwaredu asedau sefydlog eraill	(79)	(153)
Gwarged ar ôl gwaredu	814	418

Mae'r elw o werthu'n cynnwys gwerthu 21 eiddo dan yr Hawl i Brynu (2017: 14 eiddo).

7) Llog Derbyniadwy

	2018 £'000	2017 £'000
Llog banc derbyniadwy	10	16
Incwm cyllid pensiwn	102	177
Cyfanswm	112	193

8) Llog a chostau ariannu

	2018 £'000	2017 £'000
Benthyciadau a gorddrafhtiau banc	1,838	1,851
Taliadau lesoedd cyllid	34	14
Cyfanswm	1,872	1,865

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

9) Enillion Cyfarwyddwyr

Y prif bersonél rheoli yw'r swyddogion gweithredol sydd wedi'u rhestru ar dudalen 3.

	2018 £'000	2017 £'000
Tâl a chyflogau	380	357
Costau nawdd cymdeithasol	39	45
Costau pensiwn eraill	17	17
Cyfanswm costau staff	436	419
Enillion y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	122	121

Mae'r Cyfarwyddwr uchaf ei dâl (Prif Weithredwr) yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio Cartrefi Cymoedd Merthyr ac ni chymhwyswyd unrhyw delerau gwell neu arbennig at ei aelodaeth. Nid yw CCM yn cyfrannu i unrhyw drefniant pensiwn unigol mewn perthynas â'r Cyfarwyddwr uchaf ei dâl heblaw i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ni thalwyd cydnabyddiaeth i Aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn (2017: £Dim).

Nifer y personél allweddol cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y Prif Weithredwr, yr oedd eu cydnabyddiaeth daladwy yn y cyfnod o fewn y bandiau canlynol:

	2018 Nifer	2017 Nifer
£90,001 - £100,000	1	3
£100,001 - £110,000	2	-
£110,001 - £120,000	-	-
£120,001 - £130,000	1	1

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

10) Costau Staff

	2018 £'000	2017 £'000
Costau staff yn ystod y flwyddyn:		
Tâl a chyflogau	4,997	5,013
Costau nawdd cymdeithasol	681	597
Costau pensiwn eraill	1,437	1,044
Cyfanswm costau staff	7,115	6,654

Nifer cyfartalog misol y staff – cyfwerth ag amser llawn

	2018 Nifer	2017 Nifer
Mae hyn yn cynnwys -		
Gwasanaethau Cymorth Canolog, yn cwmpasu:		
Cyllid, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Corfforaethol a Gweinyddu	38	35
Rheoli Asedau	8	9
Tim Gwasanaethau Eiddo	90	93
Tai	53	56
Cyfanswm	189	193

Staff cyflogedig ar ddiwedd y flwyddyn – cyfwerth ag amser llawn
Mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar wythnos waith 37 awr.

190 **191**

11) Asedau Anniriaethol

Cost	Meddalwedd cyfrifiadurol £'000
Ar 1 Ebrill 2017	1,472
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	240
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(49)
Ar 31 Mawrth 2018	1,663
Amorteiddio	
Ar 1 Ebrill 2017	728
Tâl am y flwyddyn	143
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(36)
Ar 31 Mawrth 2018	835
Llyfrwerth net	
Ar 31 Mawrth 2018	828
Ar 1 Ebrill 2017	744

Mae'r gost yn cynnwys £985,835 o feddalwedd cyfrifiadurol a brynwyd yn allanol a £677,138 o feddalwedd cyfrifiadurol a gynhyrchwyd yn fewnol.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

12) Asedau Sefydlog Diriaethol – Tai ac Eiddo Arall

Cost	Eiddo tai a ddelir i'w osod £'000	Eiddo tai sy'n cael ei adeiladu £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2017	70,327	12	70,339
Trosglwyddwyd ar ôl eu cwblhau	1	(1)	-
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	4,907	414	5,321
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(386)	-	(386)
Ar 31 Mawrth 2018	74,849	425	75,274
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2017	14,741	-	14,741
Cost am y flwyddyn	3,355	-	3,355
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(129)	-	(129)
Lleihad mewn gwerth yn ystod y flwyddyn	88	-	88
Ar 31 Mawrth 2018	18,055	-	18,055
Llyfrwerth Net			
Ar 31 Mawrth 2018	56,794	425	57,219
Ar 1 Ebrill 2017	55,586	12	55,598

Roedd costau a gyfalafwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydrrannau. Cyfanswm y gwariant ar eiddo yn ystod y flwyddyn oedd £13.94 miliwn. O hynny, roedd £5.32 miliwn wedi'i gyfalafu ac £8.62 miliwn wedi'i ddatgan fel treuliau drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Cafwyd lleihad mewn gwerth eiddo tai yn ystod 2017/18 gan ostwng gwerth un eiddo y bwriedir ei ddymchwel yn ystod 2018/19 i werth tir. Cydnabyddir cost lleihad mewn gwerth o £88,000 ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr eiddo hyn.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

13) Stoc Dai

	2018 Nifer	2017 Nifer
Anghenion Cyffredinol	3,925	3,954
Tai â lloches	206	206
Garejis	414	414
Eiddo Manwerthu	32	33
Tai Cydweithredol	12	12
Tai Lesddaliadol	170	170
Fflatiau Lesddaliadol	113	113
Garejys Lesddaliadol	213	214
Eiddo Manwerthu Lesddaliadol	7	7
Cyfanswm	5,092	5,123

14) Asedau Sefydlog Diriaethol – Eraill

Cost	Dodrefn Swyddfa £'000	Cyfarpar Swyddfa £'000	Cyfarpar cynlluniau £'000	Cerbydau modur £'000	Swyddfeydd a adeiladir £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2017	572	630	132	333	896	2,563
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	99	6	13	161	3,362	3,641
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(1)	(49)	-	-	-	(50)
Ar 31 Mawrth 2018	670	587	145	494	4,258	6,154

Dibrisiant

Ar 1 Ebrill 2017	348	364	33	109	-	854
Cost am y flwyddyn	82	101	9	99	-	291
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	-	(48)	-	-	-	(48)
Colli gwerth yn ystod y flwyddyn	6	-	-	-	-	6
Ar 31 Mawrth 2018	436	417	42	208	-	1,103

Llyfrwerth net

Ar 31 Mawrth 2018	234	170	103	286	4,258	5,051
--------------------------	------------	------------	------------	------------	--------------	--------------

Ar 1 Ebrill 2017	224	266	99	224	896	1,709
------------------	-----	-----	----	-----	-----	-------

Mae cyfarpar swyddfa yn cynnwys lesoedd cyllid â chost o £10,000 (2017: £20,000), dibrisiant cronedig o £8,000 (2017: £17,000) a llyfrwerth net o £2,000 (2017: £3,000). Mae cerbydau modur yn cynnwys lesoedd cyllid â chost o £494,000 (2017: £333,000), dibrisiant cronedig o £208,000 (2017: £109,000) a llyfrwerth net o £286,000 (2017: £224,000).

Gwnaed colled ar werth dodrefn swyddfa yn 2017/18 yn ymwneud ag eitemau dodrefn yn ein safle swyddfa lloeren a fydd yn ddiangen yn dilyn y symudiad i'n prif swyddfa newydd. Mae tâl colli gwerth o £6,000 wedi'i gydnabod ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r eitemau hyn.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

15) Eiddo Buddsoddi

	2018 £'000	2017 £'000
Ar 1 Ebrill	897	897
Newidiadau ar ôl ailbrisio eiddo buddsoddi	(19)	-
Ar 31 Mawrth	878	897

Pe byddai'r eiddo buddsoddi wedi'i fesur ar gost hanesyddol, y gwerth cario fyddai £Dim (2017: £Dim).

Roedd eiddo buddsoddi wedi'i brisio ar ei werth teg ar sail prisiad a wnaed gan Savills, sef darparwr gwasanaethau eiddo sy'n arbenigo mewn rhoi prisiadau benthyca at ddibenion diogelwch a chyfrifon ar gyfer Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol ac sy'n dal un o gymwysterau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Pennwyd y gwerth teg drwy gyfeirio at y gwerth marchnad ar gyfer eiddo tebyg. Rhai ffactorau eraill a ystyriwyd wrth brisio oedd deiliadaeth yr eiddo, manylion tenantiaethau, cyflwr yr adeilad, y risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r eiddo ac arwynebeddau llawr yr eiddo. Derbynnir y prisiad bob tair blynedd. Cynhaliwyd arolwg o eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2018.

16) Rhestrau Eiddo

Dadansoddiad o'r stoc a ddelir:	2018 £'000	2017 £'000
Deunyddiau a nwyddau traul	12	15

17) 17) Dyledwyr: Symiau'n Dod yn Ddyledus o fewn un flwyddyn

	2018 £'000	2017 £'000
Ôl-ddyledion rhent	973	802
Llai: Darparu ar gyfer dyledion drwg	(295)	(295)
	678	507
Dyledwyr Gwerthiannau	342	234
Llai: Darparu ar gyfer dyledion drwg	(186)	(168)
	156	66
TAW	50	89
Dyledwyr eraill	462	333
Cyfanswm	1,346	995

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

18) Dyledwyr: Symiau'n Dod yn Ddyledus ar ôl un flwyddyn

	2018 £'000	2017 £'000
Gwaith SATC		
Ar ddechrau'r flwyddyn	64,976	71,592
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(3,816)	(6,616)
Ar ddiwedd y flwyddyn	61,160	64,976

	2018 £'000	2017 £'000
HFG2		
Ar ddechrau'r flwyddyn	-	-
Cydnabuwyd yn ystod y flwyddyn	121	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	121	-

	61,281	64,976
--	---------------	---------------

Gweler Nodyn 29 – Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau.

19) Credydwyr: Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn

	2018 £'000	2017 £'000
Benthyciadau a gorddrafftiau banc	445	366
Rhwymedigaethau o dan lesioedd cyllid	91	66
Croniadau	923	1,068
Incwm a ohiriwyd	112	36
Rhenti a gafwyd ymlaen llaw	134	158
Cyflogau a chostau cyflogaion eraill	407	291
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	177	170
Gwariant cyfalaf ar eiddo tai	898	1,018
Credydwyr cyfalaf eraill	16	167
Gwarantiaid Amgylcheddol yn ddyledus i CBSMT	314	-
Cyfanswm	3,517	3,340

Fel rhan o'r Cytundeb Trosglwyddo gyda CBSMT, mae'n ofynnol i CCM dalu swm i'r Cyngor sy'n cyfateb i'r costau a ysgwyddir gan CBSMT i sicrhau yswiriant amgylcheddol mewn perthynas ag eiddo CCM tan 2039. O dan delerau'r Trosglwyddiad, byddai hyn yn gyfyngedig i £500,000. Cynhwyswyd y gost hon yn llawn yn y costau sefydlu yn Natganiadau Ariannol 2009. Ar hyn o bryd mae gan CBSMT yswiriant hyd at 29 Mawrth 2019. Y balans sy'n dal yn ddyledus i CBSMT o dan y cytundeb hwn yw £313,901.

Gweler Nodyn 20 am fanylion ynghylch y diogelwch a roddwyd.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

20) Credydwy: Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn

	2018 £'000	2017 £'000
Benthyciadau banc – sylfaenol	24,000	24,000
Costau am roi benthyciadau banc	(544)	(578)
Benthyciadau eraill	449	469
Rhwymedigaethau o dan lesioedd cyllid	218	170
Cronfa ad-dalu Taf Fechan	14	5
Cronfa ad-dalu lesddeiliaid	336	347
	<u>24,473</u>	<u>24,413</u>
Gwarantiad Amgylcheddol yn ddyledus i CBSMT	-	314
	<u>24,473</u>	<u>24,727</u>

Benthyciadau

	2018 £'000	2017 £'000
Benthyciadau Banc		
Ar alw neu o fewn un flwyddyn	445	366
rhwngun a dwy flynedd	-	-
rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
Ar ôl pum mlynedd	24,449	24,469
	<u>24,894</u>	<u>24,835</u>

Mae benthyciadau tai yn cael eu gwarantu (drwy Prudential Security Trustee) ag arwystl ar yr holl stoc dai y mae CCM yn berchen arni. Er mwyn ariannu'r gwaith ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru, mae CCM wedi trefnu cyfleuster benthycia o £40 miliwn i'w dynnu i lawr dros nifer o flynyddoedd. Mae'r costau dyroddi'n ymwneud â ffi trefnu'r cyfleuster benthycia.

Ar 31 Mawrth 2018 roedd gan CCM gyfleuster benthycia a oedd heb ei dynnu i lawr o £16 miliwn.

Mae £20 miliwn o'n benthyciadau cyfredol sy'n ddyledus ar gyfraddau sefydlog (£10 miliwn ar 7.475% a £10 miliwn ar 6.85%). Mae cytundeb pellach ar gyfradd sefydlog wedi'i wneud ar gyfer £10 miliwn o 1 Ebrill 2020. Mae ein benthyciadau cyfredol o £4 miliwn yn weddill ar gyfraddau amrywiol.

Yn ystod 2014/15 cafodd CCM fenthyciad o £510,000 dros 25 mlynedd ar gyfradd llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus o 2.92% oddi wrth CBSMT i ariannu'r gwaith o adnewyddu Tŷ Taf Fechan fel rhan o brosiect CBSMT o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Lesoedd Cyllid

	2018 £'000	2017 £'000
Lesoedd Cyllid	91	66
Ar alw neu o fewn un flwyddyn	98	65
Rhwng un a dwy flynedd	120	105
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
Ar ôl pum mlynedd	309	236

Mae FRS102 wedi arwain at nifer o lesioedd ar gyfer cerbydau modur a chyfarpar swyddfa wedi'u dynodi'n lesioedd cyllid yn hytrach na lesioedd gweithredu.

Cronfa ad-dalu Taf Fechan

Am waith mawr neu gynlluniedig penodol yn y dyfodol mae aelodau Cydweithfa Dai Taf Fechan yn talu o flaen llaw. Mae unrhyw gyfraniadau sydd heb eu defnyddio'n cael eu cydnabod yn rhwymedigaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Bydd yr atebolrwydd hwn yn lleihau wrth gwblhau gwaith mawr neu gynlluniedig ar eiddo.

Cronfa ad-dalu lesddeiliaid

O dan SORP 2014, lle mae lesddeiliaid yn talu o flaen llaw am waith mawr neu gynlluniedig penodol yn y dyfodol, mae unrhyw gyfraniadau sydd heb eu defnyddio'n cael eu cydnabod yn rhwymedigaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Bydd yr atebolrwydd hwn yn lleihau bob blwyddyn wrth gwblhau gwaith mawr neu gynlluniedig ar eiddo lesddaliadol.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

21) Offerynnau Ariannol

Mae gwerthoedd cario asedau a rhwymedigaethau ariannol CCM wedi'u crynhoi ar sail categori isod:

	2018 £'000	2017 £'000
Asedau ariannol		
Mesurwyd yn ôl cost wedi'i hamorteiddio:	973	802
Ôl-ddyledion rhent (gweler nodyn 17)	342	234
Dyledwyr gwerthiannau (gweler nodyn 17)	<u>1,315</u>	<u>1,036</u>
Rhwymedigaethau ariannol		
Mesurwyd yn ôl cost wedi'i hamorteiddio:		
Benthyciadau taladwy (gweler nodyn 20)	24,449	24,469
Benthyciadau a gorddrafftiau banc (gweler nodyn 19)	445	366
Credydwyd cyfalaf (gweler nodyn 19)	914	1,185
Cronfa ad-dalu lesddeiliaid (gweler nodyn 20)	336	347
Cronfa ad-dalu Taf Fechan (gweler nodyn 20)	14	5
Gwarantiad Amgylcheddol (gweler nodyn 19)	314	314
	<u>26,472</u>	<u>26,686</u>

Mae incwm, treuliau, enillion a cholledion CCM mewn perthynas ag offerynnau ariannol wedi'u crynhoi isod:

	2018 £'000	2017 £'000
Incwm a thraul llog		
Cyfanswm yr incwm llog am offerynnau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	34	16
Cyfanswm y draul llog am offerynnau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	1,838	1,865

Enillion a cholledion gwerth teg

Ar rwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr (19)

-

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

22) Cyllid gwaddol a grantiau llywodraeth eraill

	Eiddo tai a osodir £'000	Eiddo tai a adeiladir £'000	Cyfanswm £'000
Cyllid gwaddol a grantiau eraill			
Ar 1 Ebrill 2017	(32,290)	-	(32,290)
Trosglwyddwyd ar ôl cwblhau	(164)	164	-
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	(2,900)	(474)	(3,374)
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	217	-	217
Grant a ailgylchwyd yn ystod y flwyddyn	(217)	-	(217)
Ar 31 Mawrth 2018	(35,354)	(310)	(35,664)
Amorteiddio Grantiau			
Ar 1 Ebrill 2017	7,552	-	7,552
Tâl am y flwyddyn	1,537	-	1,537
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(46)	-	(46)
Ar 31 Mawrth 2018	9,043	-	9,043
Llyfrwerth Net			
Ar 31 Mawrth 2018	(26,311)	(310)	(26,621)
Ar 1 Ebrill 2017	(24,738)	-	(24,738)
Symiau sy'n dod yn ddyledus:			
O fewn un flwyddyn neu lai	1,537	-	1,537
Ar ôl un flwyddyn	24,774	(310)	25,084
Cyfanswm y credydwr grant	26,311	(310)	26,621

Cyfanswm cronol y grantiau cyfalaf a gafwyd yw £35.66 miliwn. Mae hyn yn ymwneud â chyllid gwaddol o £29.68 miliwn, grantiau effeithlonrwydd ynni o £3.79 miliwn, grant tai cymdeithasol o £2.07 miliwn a £124,000 o HFG2.

Mae cyllid gwaddol yn ymwneud â'r grant gwaddol a geir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r £2.9 miliwn a gafwyd, ailddefnyddiwyd £217,000 a oedd yn gysylltiedig â gwaredu cydrannau yn ystod y flwyddyn.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

23) Cyfalaf Cyfrannau

	2018 Nifer	2017 Nifer
Cyfrannau ar ddechrau'r flwyddyn	1,065	36
Dyddiwyd yn ystod y flwyddyn	147	1,065
Diddymwyd yn ystod y flwyddyn	(40)	(36)
Ar ddiwedd y flwyddyn	<u>1,172</u>	<u>1,065</u>

Mae gan yr aelodau yr hawl i bleidleisio mewn Cyfarfodydd Aelodau ond nid yw aelodaeth yn rhoi'r hawl i gael taliadau difidend neu ddosbarthu wrth ddirwyn y gymdeithas i ben.

24) Cronfeydd wrth gefn Cyfyngedig

	2018 £'000	2017 £'000
Cronfa Bensiwn Wrth Gefn		
Ar ddechrau'r flwyddyn	3,765	4,860
Symudiad actiwaraid	809	(516)
Trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn reffeniw	(1,029)	(579)
Ar ddiwedd y flwyddyn	<u>3,545</u>	<u>3,765</u>

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cyfateb i werth Ased y Gronfa Bensiwn. Felly mae'n gyfyngedig ac nid yw ar gael i'w gwario ar ddibenion cyffredinol CCM.

	£'000	£'000
Y Gronfa Loteri Fawr		
Ar ddechrau'r flwyddyn	1	2
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn reffeniw	(1)	(1)
Ar ddiwedd y flwyddyn	<u>-</u>	<u>1</u>

Cafwyd arian drwy grant Lleisiau Lleol y Loteri Fawr ar gyfer prosiect Perthyn: Belonging. Mae hwn yn brosiect sy'n cynnwys pobl iau a hŷn sy'n byw mewn tair ardal ym Merthyr Tudful ac yn edrych ar brofiad tenantiaid tai cymdeithasol dros amser. Mae'n gyfyngedig yn unol â thelerau'r grant. Cyfanswm y grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn oedd £8,260.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

25) Lesoedd Gweithredu

Cyfanswm y taliadau lleiaf yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu yw:

	Tir ac Adeiladau		Arall	
	2018	2017	2018	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau Lesoedd Gweithredu sy'n ddyledus:				
O fewn un flwyddyn	-	171	4	9
Rhwng dwy a phum mlynedd		190	-	4
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-
	<u>-</u>	<u>361</u>	<u>4</u>	<u>13</u>

Mae'r les yn ymwneud â Thŷ Martin Evans wedi'i dosbarthu fel les feichus. Gweler nodyn 29, darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau.

26) Ymrwymadau ariannol

Mae ymrwymadau ariannol fel a ganlyn:

	2018	2017
	Cyfanswm	Cyfanswm
	£'000	£'000
Contractiwyd ar eu cyfer ond heb ddarparu ar eu cyfer:		
o fewn un flwyddyn	619	3,524
rhwng un a phum mlynedd	1,600	50
ar ôl pum mlynedd	-	-
Cymeradwywyd gan y cyfarwyddwyr ond heb contractio	-	-

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

27) Nodiadau ar gyfer y Datganiad o Lif Arian Parod

	2018 £'000	2017 £'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		
Gwarged Gweithredu ar gyfer y flwyddyn	1,966	1,975
Addasiad ar gyfer eitemau heblaw arian parod:		
Amorteiddio asedau anniriaethol	143	150
Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	3,646	3,372
Amorteiddio grantiau llywodraeth	(1,537)	(1,513)
Symudiadau cyfalaf gweithio:		
Gostyngiad / (cynnydd) mewn rhestrau	3	(3)
Gostyngiad / (cynnydd) mewn dyledwyr < 1 flwyddyn	(351)	72
Gostyngiad mewn dyledwyr > 1 flwyddyn	3,695	6,616
Cynnydd mewn credydwyr < 1 flwyddyn	344	94
(Gostyngiad) mewn credydwyr > 1 flwyddyn	(316)	(24)
(Gostyngiad) mewn darpariaethau	(3,527)	(6,836)
Costau pensiwn llai cyfraniadau taladwy	1,131	756
Swm cario gwarediadau eiddo, offer a chyfarpar	(68)	(3)
Colled drwy leihad mewn gwerth ar warediadau eiddo, offer a chyfarpar	94	38
Addasiad am eitemau buddsoddi ac ariannu:		
Gwarged ar ôl gwaredu eiddo, offer a chyfarpar	(814)	(418)
Llog derbyniadwy	(112)	(193)
Llog a chostau ariannu	1,872	1,865
Newid yng ngwerth teg offerynnau ariannol	-	-
Newid yng ngwerth teg Buddsoddiadau	19	-
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	6,188	5,948
 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	 £'000	 £'000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	1,654	2,061
Symiau cyfwerth ag arian parod mewn buddsoddiadau asedau cyfredol	-	-
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	1,654	2,061

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

28) Partïon Cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2018 roedd gennym 8 Aelod Annibynnol o'r Bwrdd ac nid oes un ohonynt yn denant neu'n barti cysylltiedig.

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys 11 aelod tenant, ac o'r rhain roedd 9 ohonynt mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tenantiaethau a roddir i aelodau'r Corff Democrataidd yn seiliedig ar delerau safonol CCM ac nid yw aelodau'n gallu cael mantais o'u swydd. Ar 31 Mawrth 2018, nid oedd ôl-ddyledion rhent cronol ar gyfer yr aelodau tenant, a chyfanswm y derbyniadau a gronnwyd yn ystod penodi oedd £49,976.

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys 8 aelod sy'n gyflogaion ac o'r rhain roedd 7 ohonynt mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2018, cyfanswm y taliadau cyflog ar gyfer aelodau sy'n gyflogaion oedd £216,302.

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r Cyngor. Mae unrhyw drafodion â'r Cyngor yn cael eu gwneud hyd braich ar delerau masnachol arferol ac nid yw Cynrychiolwyr y Cyngor yn gallu cael mantais o'u swydd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CCM daliadau a oedd yn dod i gyfanswm o £4.1 miliwn i CBSMT, mewn cysylltiad â'r gyflogres a Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn bennaf, a'r gweddill yn ymwneud â threthi busnes a chostau eraill. Ymysg y dyledwyr y mae swm o £31,948 sy'n cynnwys Grant Cefnogi Pobl heb ei dderbyn. Ymysg y credydwyr y mae swm o £331,074 sy'n ymwneud â chostau cyflogres a Chytundebau Lefel Gwasanaeth a swm o £313,901 sy'n ymwneud â'r gwarantiad amgylcheddol; y cwbl yn ddyledus i CBSMT.

29) Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

	Swyddfa £'000	Gwaith SATC £'000	2018 £'000	2017 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	-	64,976	64,976	71,812
Darparwyd ar ei gyfer yn ystod y flwyddyn	289	-	289	-
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	-	-	(220)
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	(3,816)	(3,816)	(6,616)
Ar ddiwedd y flwyddyn	289	61,160	61,449	64,976

Swyddfa

Ym mis Mai 2018 byddwn yn gadael ein swyddfa brydles bresennol ac yn symud i mewn i brif swyddfa bwrpasol. Rydym wedi comisiynu adroddiad allanol ar y dadfeiliadau sydd eu hangen yng nghyfmodau'r brydles ac wedi darparu £100,000 ar gyfer hyn. Mae'r taliad prydles a adroddwyd yn flaenorol dan brydlesi gweithredol bellach wedi'i ddosbarthu fel prydles feichus ac rydym wedi darparu £189,000 mewn taliadau prydles sy'n weddill.

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Gwaith SATC

O dan y cytundeb trosglwyddo roedd y Cyngor wedi trosglwyddo'r eiddo i CCM ynghyd â rhwymedigaeth i ymgymryd â'r gwaith SATC ar draul y Cyngor. Y pris a dalwyd am yr eiddo oedd £133,023,642; mae'r pris hwn yn adlewyrchu Gwerth Marchnad y stoc gyda Thenantiaid, sef dim, a'r amcangyfrif o werth y gwaith, sef £133,023,642. Ar 31 Mawrth 2018 mae £61.160 miliwn (2017: £64.976 miliwn) wedi'i ddangos yn Dyledwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn ac mewn darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau.

30) Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Nid oes digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd.

31) Costau Pensiwn

Mae cyflogeion Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gymwys i ymuno â Chronfa Bensiwn CBS Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun pensiwn llywodraeth leol (CPLIL). Cafodd CCM ei dderbyn i'r cynllun ar 30 Mawrth 2009. Mae'r datgeliad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Mae'r CPLIL yn gynllun buddion wedi'u diffinio a ariennir, a'i asedau'n cael eu dal mewn cronfa ar wahân sy'n cael ei gweinyddu gan ymddiriedolwyr. Cyfanswm y cyfraniadau yn y flwyddyn oedd £628,948 ac, o'r rhain, cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwyr oedd £311,258 a chyfanswm cyfraniadau'r cyflogeion oedd £317,690.

Yn unol â gofynion FRS102, mae'r gronfa bensiwn yn cael ei phrisio gan actiwari annibynnol cymwysedig er mwyn canfod gwerth y cynllun ac mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan yn unol â hyn.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Yr amcangyfrif o gyfraniadau rheolaidd y cyflogwyr i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yw £417,000.

Rhagdybiaethau

Cafwyd y prisiad diweddaraf o rwymedigaethau'r gronfa gan actiwari ar 31 Mawrth 2016. Mae rhwymedigaethau wedi'u hamcangyfrif gan yr actiwari annibynnol cymwysedig ar sail actiwaraid o dan y dull credyd uned rhagamcanol. Y prif ragdybiaethau oedd:

Rhagdybiaethau ariannol ar gyfer prisio Rhwymedigaethau CPLIL a ariennir		
Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2018 (% p.a.)	31 Mawrth 2017 (% p.a.)
Cyfradd disgownt	2.60%	2.60%
Chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu	3.10%	3.10%
Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.00%	2.00%
Cynnydd yn y pensiynau sy'n cael eu talu	2.00%	2.00%
Cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn	2.00%	2.00%
Cynnydd mewn cyflogau	3.25%	3.25%

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Rhagdybiaeth ynghylch marwoldeb ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017

Dynion	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	22.9	22.8
Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	25.1	25.0
Menywod	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	25.0	24.9
Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	27.3	27.2

Dyrannu Asedau

Dosbarth Asedau	Gwerth ar 31 Mawrth 2018	Gwerth ar 31 Mawrth 2017
Ecwiti	74.8%	72.6%
Eiddo	5.4%	5.9%
Bondiau Llywodraeth	8.5%	9.4%
Bondiau Corfforaethol	9.4%	10.0%
Arian parod	1.9%	2.1%
Arall	0.0%	0.0%

Rhaniad y rhwymedigaethau rhwng yr amryw categori o aelodau yn ystod y prisio diwethaf yw:

Aelodau gweithredol	69.0%
Pensiynwyr gohiriedig	8.0%
Pensiynwyr	23.0%

Symiau a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall

	31 Mawrth 2018 £M'au	31 Mawrth 2017 £M'au
Enillion / (colledion) asedau a gododd yn ystod y cyfnod	0.897	4.921
Enillion / (colledion) rhwymedigaethau a gododd yn ystod y cyfnod	(0.088)	(5.437)
Cyfanswm a gydnabyddir o dan incwm cynhwysfawr arall	0.809	(0.516)

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Cysoni'r statws a ariannwyd â'r Sefyllfa Ariannol

	31 Mawrth 2018 £M'au	31 Mawrth 2017 £M'au
Gwerth teg yr asedau	38.283	36.226
Gwerth cyfredol y rhwymedigaeth buddion a ddiffiniwyd	34.738	32.461
Asedau pensiwn net	3.545	3.765

Symudiadau mewn gwerth teg yr asedau

	31 Mawrth 2018 £M'au	31 Mawrth 2017 £M'au
Gwerth teg agoriadol yr asedau	36.226	29.934
Incwm llog ar asedau	0.945	1.054
Enillion / (colledion) aifedur ar asedau	0.897	4.921
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.311	0.381
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.318	0.301
Buddion net a dalwyd	(0.414)	(0.365)
Cynnydd net mewn asedau o warediadau / caffaeliadau	0.000	0.000
Setliadau	0.000	0.000
Gwerth teg yr asedau adeg cau	38.283	36.226

Symudiadau mewn gwerth cyfredol y rhwymedigaeth buddion a ddiffiniwyd

	31 Mawrth 2018 £M'au	31 Mawrth 2017 £M'au
Gwerth cyfredol agoriadol y rhwymedigaethau	32.461	25.074
Costau gwasanaeth presennol	1.435	1.043
Costau llog	0.843	0.877
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.318	0.301
Enillion / (colledion) actiwaraid ar rhwymedigaethau	0.088	5.437
Buddion net a dalwyd	(0.414)	(0.365)
Costau gwasanaeth blaenorol	0.007	0.094
Cwtogiadau	0.000	0.000
Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o warediadau caffaeliadau	0.000	0.000
Setliadau	0.000	0.000
Rhwymedigaeth buddion a ddiffiniwyd adeg cau	34.738	32.461

Nodiadau ar gyfer y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018

Enillion actiwaraid ar asedau		
	31 Mawrth 2018 £M'au	31 Mawrth 2017 £M'au
Incwm llog ar asedau	0.945	1.054
Enillion / (colledion) ar asedau	0.897	4.921
Enillion gwirioneddol ar asedau	1.842	5.975

